



Congregational

Llyfryn **polisi**

Church Choice

Yswiriant ar gyfer
eich man addoliad



GOLEUNI Y BYWYD





Croeso i Congregational

Mae'r polisi 'church choice' hwn yn cynnig sicwydd yswiriant wedi'i lunio'n neilltuol ar gyfer mannau addoliad. Mae'n darparu yswiriant i'ch eiddo, ymrwymiadau ac ystod eang o weithgareddau estyn allan.

Mae gynnon ni ddealltwriaeth ddilys o'r materion yswiriant datblygol sy'n wynebu eglwysi ac yn ymfalchïo mewn ymateb i ymholiadau gyda'r gofal a'r empathi gorau. Ein blaenoriaeth busnes ydy darparu gwerth am arian a gwasanaeth rhagorol. Rydyn ni'n gwrando'n weithredol ar gwsmeriaid ac yn defnyddio data holiaduron cwsmeriaid er mwyn sicrhau ein bod yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i wella ansawdd ein gwasanaeth.

Fe ddylech gymryd yr amser i ddarllen trwy'r llyfryn hwn gan ei fod yn cynnwys manylion ynghlŷn â sicwydd yswiriant eich polisi; rhywfaint o wybodaeth bwysig; arweiniad ynghlŷn â sut i wneud cais am hawliad yn ogystal â manylion cyswllt hanfodol. Mae eich rhestr atodol yn cynnwys yr adrannau sicwydd yswiriant rydych wedi'i ddewis. Mae eich polisi wedi'i seilïo ar y manylion a roddwyd inni gynnoch chi. Cymerwch olwg i wneud yn siŵr bod y sicwydd yswiriant yn parhau i ateb anghenion eich eglwys. Cadwch y llyfryn hwn yn ddiogel ynghyd â'ch rhestr atodol ac unrhyw hysbysiadau a anfonir atoch.

Diolch am ddewis Congregational, edrychwn ymlaen at ddarparu sicwydd yswiriant ar eich cyfer am flynyddoedd lawer i ddod.

Carlo Cavaliere
Prif Weinyddwr

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol

Rydyn ni wedi ein cynnwys dan y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS), sy'n golygu y gallech chi fod â'r hawl i iawndal os fyddwn ni'n analluog i gyfarfod â'n rhwymedigaethau i chi.

Am fwy o wybodaeth am y CDGA, ewch i www.fscs.org.uk neu trwy gysylltu â:
Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCA), 10th Floor, Beaufort House, 15 St Botolph Street, Llundain/London EC3A 7QU.

☎ 0800 678 1100 or 0207 741 4100

✉ enquiries@fscs.org.uk



Gwybodaeth ddefnyddiol

Llythyr o groeso	1	Gwneud cais am hawliad	6
FSCS	1	Llinellau cymorth	7
Manylion cyswllt	3	Sut i gwyno	8
Eich polisi yswiriant	4	Gwybodaeth am y polisi	9
Eich cyfrifoldebau	4	Sut rydyn ni'n defnyddio eich data	10
Newidiadau i'ch amgylchiadau	4		
Diddymiad	5		
Prif elfennau eich polisi	5		
Diogelu eich eglwys	5		

Manylion polisi

Diffiniadau cyffredinol - adran 1a i 6	11	Adran 3 – Arian	
Amodau sy'n gymwys i'r polisi cyfan	12	Diffiniadau	29
Amodau hawliad		<i>Tabl uchafsymiau</i>	29
Eich dyletswyddau	14	Estyniadau	30
Ein hawliau	14	Amodau arbennig	30
Eithriadau sy'n berthnasol i'r polisi cyfan	15	Adran 4 – Colli incwm	
Adran 1a - Difrod i eiddo		Diffiniadau	31
<i>Tân</i>	17	<i>Colli incwm</i>	31
<i>Awyren</i>	17	<i>Gwariant ychwanegol</i>	31
<i>Gwrthdrawiad</i>	17	Estyniadau	32
<i>Storm</i>	17	Adran 5 – Atebolrwydd	
<i>Llifogydd</i>	18	Diffiniadau	33
<i>Dŵr yn gollwng</i>	18	<i>Atebolrwydd cyflogwyr</i>	33
<i>Dŵr yn rhewi</i>	18	<i>Atebolrwydd cyhoeddus</i>	33
<i>Olew yn gollwng</i>	18	<i>Atebolrwydd cynnyrch</i>	34
<i>Coed neu ganghennau'n disgyn</i>	18	<i>Tabl uchafsymiau indemniad</i>	34
<i>Erialau a mastiau'n torri</i>	18	Estyniadau	35
<i>Terfysg a chynnwrf sifil</i>	18	Eithriadau	38
<i>Difrod maleisus</i>	18	Adran 6 – Damwain bersonol	
<i>Lladrad neu ymgais i ladrata</i>	18	Diffiniadau	39
<i>Torri gwydr ar ddamwain</i>	19	<i>Tabl budd-daliadau</i>	39
<i>Torri gwydr lliw ar ddamwain</i>	19	Estyniadau	40
<i>Difrod damweiniol</i>	19	Adran 7 – Amddiffyniad cyfreithiol	
Estyniadau	20	Gwybodaeth gyfreithiol a rheoliadol	41
Amodau arbennig	24	CDGA	41
Cymalau	25	Diffiniadau	41
Adran 1b – Boeleri a pheirianwaith		Manylion sicrwydd yswiriant	43
Diffiniadau	27	<i>Anghydfodau cyflogaeth a dyfarniadau iawndal</i>	44
<i>Difrod disymwth ac annisgwyl i foeleri</i>	27	<i>Amddiffyniad cyfreithiol</i>	45
<i>Peirianwaith trydanol a mecanyddol</i>	27	<i>Diogelu eiddo a niwed personol roperty</i>	46
Adran 2 – Estyniad i'r sicrwydd yswiriant ar gyfer eitemau neilltuol	28	Eithriadau	47
		Amodau	48
		Diogelu data	50
		Sut i wneud cwyn i DAS	50



Newidiadau i'ch polisi

Os ydych angen cyngor ar bolisi sicrwydd yswiriant neu'n dymuno gwneud newidiadau i'ch polisi megis newid cyfeiriad neu'r symiau yswiriedig, cysylltwch â'r:

Adran eglwysi

✉ church@congregational.co.uk
☎ 01274 700 700

Hawliadau

✉ claims@congregational.co.uk
☎ 01274 700 700

Adran 7 – hawliadau amddiffyniad cyfreithiol
Wedi'i warantu gan DAS Legal Expenses
Insurance Company Limited

✉ newclaims@das.co.uk
☎ 0800 1388 114

Ymholiadau cyffredinol

✉ info@congregational.co.uk
☎ 01274 700 700

Efallai y caiff galwadau eu recordio i bwrpas hyfforddiant a monitro.

Mae'r swyddfeydd ar agor rhwng 9.00yb a 5.00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, heblaw gwyliau banc. Nodwch na ellir cofrestru hawliadau y tu allan i'r oriau busnes hyn.

Congregational ydy enw masnachu Integra Insurance Solutions Ltd. Integra fydd yn delio â phob gohebiaeth ynglŷn â'ch polisi neu hawliadau.

Cyfeiriad

Congregational, Integra Insurance Solutions Ltd., Currer House, Currer Street, Bradford BD1 5BA

Typetalk

Yn ogystal â'n gwasanaeth ffôn sylfaenol, mae modd cysylltu â ni trwy Typetalk. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, teipiwch y rhagrifau 18001 o flaen y rhif ffôn rydych yn dymuno cysylltu ag e. Dyma rif ein prif switsfwrdd 1800101274700700

Fformatau eraill

Gellir darparu llenyddiaeth a gohebiaeth yn y gwahanol fformatau canlynol: Braille, print bras a thâp sain. Os ydych angen dogfennau yn y fformatau hyn, cysylltwch â'r adran eglwysi ar 01274 700 700.

Rhifau llinellau cymorth

Mae gwasanaethau'r llinellau cymorth yn darparu mynediad rhwydd i gwsmeriaid at gyngor ac arweiniad i ddelio â phob math o ddigwyddiadau ac argyfyngau sy'n digwydd o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn rhad ac am ddim yn ystod cyfnod yswiriant. Mae galwadau i linellau cymorth yn rhad ac am ddim o linellau ffôn daearol a ffonau symudol y DU.

☎ 0800 1388 114

Cymorth mewn argyfwng, gwasanaeth cyngor cyfreithiol eurolaw, gwasanaeth cyngor ar dreth

☎ 0800 1388 115

Llinell gymorth cwnsela

☎ 0800 1388 116

Gwasanaeth ail-osod gwyr

Gweler tudalen 7 am fanylion pellach.



Os ydych angen unrhyw gymorth ynglŷn â pholisi sicrwydd yswiriant neu'n dymuno gwneud newidiadau i'ch polisi, fe ddylech gysylltu ag adran yr eglwysi.

Congregational ydy enw masnachu Integra Insurance Solutions Ltd.

Mae'r polisi hwn wedi'i warantu gan:

International Insurance Company of Hannover SE - Cangen y DU
Swyddfa'r Gangen: 10 Fenchurch Street, Llundain EC3M 3BE

Cofrestrir International Insurance Company of Hannover SE yn Yr Almaen, rhif cofrestru HRB 211924.
Swyddfa Gofrestredig: Roderbruchstraße 26, 30655 Hannover, Yr Almaen.

Awdurdodwyd gan Bundesanstalt für Finanzdienstleistungsaufsicht ac awdurdodwyd ac yn amodol ar reoleiddio cyfyngedig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol 659331
Mae manylion cwmplas ein hawdurdod a'n rheoleiddiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gael ganddon ni o wneud cais.

Gweinyddir y polisi hwn gan:

Integra Insurance Solutions Ltd.
Swyddfa Gofrestredig: Currer House, Currer Street, Bradford BD1 5BA
Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru Rhif Cofrestredig 06760260.
Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol 495111

Dylid cyfeirio pob gohebiaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y polisi, cwynion a hysbysiadau am hawliadau yswiriant at Integra.

Eich cyfrifoldebau

Bydd unrhyw gynnig sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a gyflwynir neu ddatganiad a arwyddir gynnoch chi mewn perthynas â'r yswiriant hwn yn ffurfio rhan o'r cytundeb rhyngddoch chi a ni.

Mae hi'n hanfodol eich bod yn cyflwyno inni gynrychiolaeth deg o'r risgiau rydyn ni'n eu derbyn wrth wneud cais am y sicrwydd yswiriant hwn. Mae hi hefyd yn bwysig eich bod yn cynghori adran yr eglwysi am unrhyw newidiadau sy'n digwydd yn ystod y cyfnod yswiriant a all newid gwybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol. Os ydych dan unrhyw amheuaeth pa un ai bod angen ichi ddatgelu gwybodaeth inni ai peidio, yna fe ddylid datgan hyn.

Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosib y bydd angen ichi wneud ymholiadau gyda holl swyddogion ac ymgynghorwyr eglwys i sicrhau eich bod wedi datgelu'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Mae hi'n hanfodol i gadw eich eglwys mewn cyflwr da a chymryd camau rhesymol i osgoi lladrad, colled neu ddifrod. Fe fwriedir i'ch polisi roi sicrwydd yswiriant ichi yn erbyn digwyddiadau na ellir eu rhagweld megis tân a lladrad. Dydy'r polisi ddim yn cynnwys 'traul a gwisgo' na dirywiad graddol megis rendro diffygiol, ail-bwyntio simneiau neu waith brics, cynnal a chadw cyffredinol ar doeau neu tamprwydd a phydredd yn codi o unrhyw achos. Mae'r manau sydd, yn gyffredinol, yn dueddol o ddiodef 'traul a gwisgo' ar adeilad yn cynnwys gwteri, toeau fflat, byrddau ffasgia a waliau terfyn. Dylid cadw golwg ar y rhain yn rheolaidd.

Eich cyfrifoldeb chithau hefyd ydy profi unrhyw golled felly rydyn ni'n eich argymhell i gadw derbynebaw, prisiau, ffotograffau, llyfrynnau cyfarwyddiadau a chardiau gwarant i helpu gydag unrhyw gais am hawliad a wnewch.

Newidiadau i'ch amgylchiadau

Mae eich anghenion bron yn sicr o newid; os wnaen nhw, gadewch i adran yr eglwysi wybod. Anfonir rhestr atodol wedi'i ddiweddarar atoch pob tro y gwneir newid i'r sicrwydd yswiriant.

Mae'n rhaid ichi ein hysbysu am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau wedi dechrau cyfnod yr yswiriant a fyddai'n cynyddu'r risg o ddifrod, niwed neu atebolrwydd, gan gynnwys deiliadaeth, newid defnydd yr eiddo neu os oes cynlluniau i wneud newidiadau adeiladweithiol neu i atgyweirio'r adeiladau. Gweler amod '6. dyletswydd cynrychiolaeth deg' ar dudalen 12 am fwy o fanylion.

Diddymiad

Fe gewch ganslo eich polisi o fewn 14 niwrnod o ddyddiad pwrkasu neu adnewyddu'r contract neu'r diwrnod rydych yn derbyn dogfennaeth eich polisi neu'r adnewyddiad, pa un bynnag ydy'r mwyaf diweddar.

Os ydych yn dymuno canslo a bod y sicrwydd yswiriant heb ddechrau eto, fe fydd gynnwys chi hawl i ad-daliad llawn o'r

premiwm a dalwyd. Fel arall, os dymunwch ganslo a bod y sicrwydd yswiriant eisoes wedi dechrau, fe fydd gynnwys chi hawl i ad-daliad o'r premiwm a dalwyd, llai didyniad cymesur â'r amser y darparwyd sicrwydd yswiriant gynnon ni.

Am fwy o fanylion yngl n â chanslo eich polisi, gweler amod '8. diddymiad' ar dudalen 13.

Prif elfennau eich polisi

Mae'r polisi yn cynnwys y prif rannau canlynol:

Amodau hawliadau

Eich dyletswyddau a'n cyfrifoldebau sy'n diffinio pa gamau sydd yn rhaid ichi eu cymryd a sut fyddwn ni'n delio â hawliadau, gweler tudalen 14.

Amodau sy'n berthnasol i'r polisi cyfan

Materion sylfaenol sy'n effeithio ar sut mae'r holl bolisi'n gweithredu, gweler tudalennau 12-13.

Diffiniadau

Eglurhad o ystyr penodol nifer o eiriau sydd bob amser â'r un ystyr, lle bynnag maen nhw'n ymddangos yn y polisi. Lle defnyddir gair gydag ystyr penodol, bydd yn ymddangos mewn print du amlwg.

Eithriadau sy'n berthnasol i'r polisi cyfan

Disgrifiad o ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achlysuron sydd heb eu cynnwys dan unrhyw ran o'r polisi.

Atodlen

Sy'n disgrifio pwy sydd wedi'i yswirio, lleoliad yr eiddo sydd â sicrwydd yswiriant y polisi, cyfnod yr yswiriant, manylion y premiwm, yr adrannau gweithredol rydych wedi'u dewis. Yn ychwanegol at hyn, mae'n cynnwys manylion dyddiad dod i ben unrhyw ymgymeriad hirdymor, y symiau yswiriedig fesul adrannau unigol, unrhyw delerau ac amodau arbennig sy'n gymwys ac unrhyw arnodiad(au) neu ychwanegiad(au) sy'n diwygio geiriad y polisi hwn.

Adrannau

Sy'n rhoi manylion tra-chywir o'r sicrwydd yswiriant a ddewiswyd gynnwys chi yn amodol ar unrhyw amrywiad trwy arnodiad(au) a ddangosir ar eich rhestr atodol neu ar ddogfen ar wahân, ynghyd ag unrhyw delerau ac amodau penodol sy'n berthnasol i'r adran honno.

Diogelu eich eglwys

Rydyn ni'n deall bod eich eglwys yn rhan bwysig o'ch cymuned ac rydyn ni am eich helpu i ddiogelu eich man addoliad. Nid yn unig pan fo pethau'n mynd o chwith, ond rydyn ni am eich helpu i atal problemau cyn iddyn nhw godi.

Mae ein hadnodd ar-lein, 'Safer Places of Worship', yn caniatáu mynediad parod i ddiogelu eich eglwys at wybodaeth ynglŷn â sut orau i ddiogelu eu hadeiladau eglwys. Mae'n amlinellu camau ymarferol i sicrhau amgylchfyd mwy diogel ar gyfer addoliad a gweithgareddau eraill yn gysylltiedig ag eglwys.

Mae'n cynnig arweiniad i eglwysi mewn meysydd megis iechyd a diogelwch, mesurau diogelwch, atal tân a gofynion cyfreithiol a all effeithio ar gynnal a chadw dyddiol eglwysi. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i safleoedd a dogfennau eraill er mwyn cael gwybodaeth fanylach ar faterion penodol.

www.spow.co.uk



Fe gewch lawrlwytho ffurflen gais a chanfod nodiadau canllaw pellach ynglŷn â chyflwyno eich cais yn: www.congregational.co.uk

Mae'r amodau sy'n berthnasol i'r polisi yn achos hawliad wedi'u gosod allan yn y llyfryn polisi hwn (gweler tudalen 14). Mae hi'n bwysig eich bod yn cydymffurfio gyda holl amodau'r polisi ac fe ddylech ymgyswddo ag unrhyw ofnyion.

I wneud hawliad, mae'n ofynnol ichi ddarparu tystiolaeth a chymorth rhesymol ynghylch achos a gwerth unrhyw hawliad.

- Os ydy'r golled neu'r difrod yn sylweddol, h.y. tân neu lifogydd, cysylltwch â'r adran hawliadau cyn gynted ag sy'n bosib yn ystod oriau swyddfa ar 01274 700 700, er mwyn galluogi penodi aseswr colledion. Bydd yr aseswyr fel arfer yn cysylltu â chi ar yr un diwrnod er mwyn gwneud apwyntiad.
- Os ydy atgyweirio dros dro yn angenrheidiol er mwyn diogelu eich eiddo neu atal difrod pellach, ewch at i'n ddiymdroi i wneud hynny a chyflwyno'r anfonebau perthnasol. Nodwch na fyddwn yn talu'r costau hyn oni bai bod eich hawliad yn un dilys.
- Peidiwch â chael gwared ag unrhyw eiddo a ddifrodwyd gan ei bod hi'n bosib y bydd angen ei archwilio.
- O ran difrod i, neu ladrad cynnwys, anfonwch anfonebau gwreiddiol lle bo'n bosib ar gyfer yr eitemau hynny ac/neu amcanbrisiau i'w hail-brynu.
- Gan ddibynnu ar natur eich hawliad, efallai y bydd gofyn inni benodi cyflenwr neu aseswr colledion i gynorthwyo gyda dilysrwydd a setliad yr hawliad.
- Cwblhewch ffurflen hawlio a'i ddanfon aton ni ynghyd ag unrhyw amcanbrisiau, cyfrifon a dogfennaeth ategol.
- Os ydy eich hawliad yn ymwneud ag atebolrwydd ni ddylech chi gyfaddef unrhyw atebolrwydd. Cysylltwch â Congregational ar unwaith os bydd unrhyw un yn gwneud hawliad yn eich erbyn ac anfonwch unrhyw writ neu wŷs, heb eu hateb.

Cysylltu â'r adran hawliadau

📧 claims@congregational.co.uk

☎ 01274 700 700

Swyddfeydd ar agor rhwng 9.00yb a 5.00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, heblaw gwyliau banc. Noder nad oes modd cofrestru hawliadau oddi allan i'r oriau busnes hyn.

Yn ogystal â'n gwasanaeth ffôn sylfaenol, mae modd cysylltu â ni trwy Typetalk. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, teipiwch y rhagrifau 18001 o flaen y rhif ffôn rydych yn dymuno cysylltu ag e. Dyma rif ein prif switsfwrdd 1800101274700700

Cyfeiriad:

Claims department, Congregational, Currer House, Currer Street, Bradford BD1 5BA

Congregational ydy enw masnachu Integra Insurance Solutions Ltd.

Integra fydd yn delio â phob gohebiaeth ynglŷn â'ch polisi neu hawliadau.

Hawliadau Amddiffyniad Cyfreithiol dan adran 7

Wedi'i warantu gan DAS Legal Expenses Insurance Company Limited

☎ 0800 1388 114

Fe fyddwch yn cael eich holi am eich anghydfod cyfreithiol ac os bydd angen, fe gewch alwad yn ôl ar amser i'w gytuno er mwyn rhoi cyngor cyfreithiol ichi.

Bydd DAS yn rhoi rhif cyfeirnod hawliad ichi. Ar yr adeg hon, fydden nhw ddim yn gallu dweud wrthydd chi os oes gynnloch chi sicrwydd yswiriant ond fe wnaen nhw drosglwyddo'r wybodaeth at eu timau delio â hawliadau ac esbonio beth i'w wneud nesaf.

Os fase hi'n well gynnloch chi riportio eich hawliad yn ysgrifenedig, fe gewch ei anfon at:

Adran hawliadau/Claims department, DAS Legal Expenses Insurance Company Limited, DAS House, Quay Side, Temple Back, Bryste/Bristol BS1 NH.



Budd ychwanegol o gymryd polisi gyda Congregational ydy'r gwasanaethau cymorth a chyngor a geir wedyn. Trwy hyn mae deiliaid polisi yn cael mynediad rhwydd i nifer o linellau cymorth ar gyfer pob math o ddigwyddiadau ac argyfyngau sy'n digwydd yn y DU.

Peidiwch â defnyddio'r gwasanaethau hyn i riportio hawliad na holi am hynt a helynt hawliad sydd ar waith, ffoniwch Congregational ar 01274 700 700. Swyddfeydd ar agor rhwng 9.00yb – 5.00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, heblaw gwyliau banc.

☎ 0800 1388 114 - llinell gymorth eglwysi

Mae'r gwasanaethau llinellau cymorth ar gael gan DAS Legal Expenses Insurance Company Limited (DAS).

Ni all DAS dderbyn cyfrifoldeb os nad ydy'r gwasanaethau llinellau cymorth ar gael am resymau tu hwn i'w rheolaeth. I helpu delio gyda'ch ymholiad yn gyflym ac yn effeithiol, cofiwch fod â'ch rhif polisi wrth law pan ffoniwch.

Mae'r llinell gymorth yn darparu cynhorthwy gyda'r canlynol:

Cymorth mewn argyfwng

Yn achos argyfwng (sydd efallai heb ei yswirio) sy'n effeithio ar eich eiddo ac sy'n achosi difrod neu berygl posib, bydd DAS yn cysylltu â chontractwr neu atgyweiriwr priodol a threfnu cymorth ar eich rhan. Eich cyfrifoldeb chi ydy holl gostau'r cymorth a ddarperir, er, os dderbyniwn ni hawliad am ddifrod sy'n codi o argyfwng o'r fath, caiff costau eu talu ganddon ni yn amodol ar delerau ac amodau'r polisi.

Cyngor cyfreithiol

Bydd DAS yn darparu cyngor cyfreithiol cyfrinachol rhad ac am ddim dros y ffôn ar unrhyw broblem gyfreithiol fasnachol gyffredinol sy'n effeithio arnoch chi dan gyfreithiau aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel, Y Swistir a Norwy.

Gwasanaeth cyngor ar dreth

Bydd DAS yn darparu cyngor cyfrinachol rhad ac am ddim dros y ffôn ar unrhyw faterion treth sy'n effeithio arnoch chi, dan ddeddfau'r Deyrnas Unedig.

☎ 0800 1388 115 - llinell gymorth cwnsela

Bydd DAS yn darparu i'ch gweithwyr, gan gynnwys unrhyw aelod agos i'w teuluoedd (sy'n byw'n barhaol gyda nhw), gwasanaeth cwnsela cyfrinachol dros y ffôn a, lle bo'n briodol, atgyfeirio ymlaen at wasanaethau gwirfoddol a/neu broffesiynol perthnasol. Eich cyfrifoldeb chi fydd holl gostau cymorth pellach.

☎ 0800 1388 116 - gwasanaeth ail-osod gwydr

Darperir y gwasanaeth ail-osod gwydr gan gyflenwr trydydd parti.

Mae gwydr wedi torri mewn drysau mewnol a ffenestri yn hyll ac yn anghyfleus. Mae hefyd yn cynrychioli risg diogelwch.

Gellir ail-osod y gwydr sydd wedi torri ar adeg sy'n gyfleus i chi. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan ddigwyddiadau o wydr wedi torri sicrwydd yswiriant dan bolisi eich eglwys - gwnewch yn siŵr trwy edrych ar eich rhestr atodol am fanylion. Fel arall, cysylltwch ag adran yr eglwys.

Os nad ydy eich polisi yn darparu sicrwydd yswiriant dros ddifrod i wydr, mae modd ichi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, ond chi fydd yn gyfrifol am yr holl gostau ynghlwm â hyn. Os ydy telerau eich polisi'n gofyn ichi dalu tâl dros ben, neu eich bod wedi'ch cofrestru at ddibenion TAW, fe gewch eich anfonebu'n uniongyrchol gan y cyflenwr am yr eitemau hyn. Bydd defnyddio atgyweiriwr gwahanol ddim yn effeithio ar eich hawl i hawliad.

Noder

I helpu cynnal a gwella safonau gwasanaeth, fe gofnodir holl alwadau ffôn, heblaw'r rhai hynny a wneir i'r llinell gymorth cwnsela, sydd yn wasanaeth cwbl gyfrinachol.

Mae'r gwasanaethau llinellau cymorth ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, yn ystod y cyfnod yswiriant.



Congregational ydy enw masnachu Integra Insurance Solutions Ltd.

Gweinyddir yr holl ohebiaeth ynglŷn â chwynion gan Integra.

Ein nod yw darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid pob amser. Fodd bynnag, o dro i dro dealla Integra nad ydym efallai yn cynnal ein safonau uchel ein hunain, ac rydym yn cydnabod bod pethau yn gallu mynd o chwith yn achysurol. Pryd bynnag y digwydd hyn, rydym yn croesawu eich adborth er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r math o wasanaeth yr ydych chi yn ei ddisgwyl.

Cwynion am y polisi:

☎ 01274 700 700

✉ church@congregational.co.uk

Cwynion am hawliadau:

☎ 01274 700 700

✉ claims@congregational.co.uk

Pob cwyn arall:

☎ 01274 700 700

✉ info@congregational.co.uk

Congregational complaints, Integra Insurance Solutions Ltd., Curren House, Curren Street, Bradford BD1 5BA.

Fe gymerir pob cwyn o ddifrif a cheisir eu datrys yn brydlon a theg. Cofnodir pob cwyn yn ddyfal, maen nhw'n cael eu trafod yn fuan ac fe nodir y canlyniad. Gellir cael hyd i fanylion llawn ein gweithdrefn gwynion ar ein gwefan: www.congregational.co.uk neu mae copïau mewn print ar gael o wneud cais.

Os, wedi inni dderbyn cwyn oddi wrthych, un ai:

- nad ydyn ni wedi darparu penderfyniad terfynol ichi o fewn 40 niwrnod gwaith; neu
- eich bod yn anfodlon gyda'n penderfyniad terfynol ac yn teimlo na chafodd y mater ei ddatrys yn foddhaol, mae'n bosib y gallwch gymryd eich cwyn at y Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol.

Rhaid i gŵyn a gyfeirir at yr ombwdsman fel arfer cael ei gwneud o fewn chwe mis i dderbyn ymateb ysgrifenedig terfynol neu gyhoeddi cyfathrebiad datrysiaid diannod.

Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol

Llinell gymorth cwsmeriaid

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener – 8.00yb tan 8.00yh
Dydd Sadwrn - 9.00yb tan 1.00yp.

☎ 0800 023 4 567

mae galwadau i'r rhif hwn yn rhad ac am ddim ar ffonau symudol a llinellau tir.

☎ 0300 123 9 123

dydy galwadau i'r rhif hwn ddim yn costio mwy na galwadau i rifau 01 neu 02.

Mae'n bosib na fydd y rhifau hyn ar gael oddi allan i'r DU – ffoniwch +44 20 7964 0500 o dramor.

Cyfeiriad

Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol / Financial Ombudsman Service, Exchange Tower, Llundain E14 9SR

E-bost a gwefan

✉ complaint.info@financial-ombudsman.org.uk
www.financial-ombudsman.org.uk



Prisio adeiladau

Mae asesu'n fanwl gywir costau ail-adeiladu i eglwysi yn broblem anodd. Fe allwn ni gynnig gwasanaeth prisio adeiladau i ddeiliaid polisi 'church choice'. Gall ein syrfewyr eich cynorthwyo gydag asesiad gwerth yswiriant eich adeiladau, yn ogystal â chynnig cyngor ar faterion megis diogelwch, rhagofalon tân, ayyb.

Amddiffyn rhag chwyddiant

Fe wnawn ni gymhwyso'r symiau yswiriedig dan adran 1a – difrod i eiddo ac adran 2 – sicrwydd yswiriant estynedig ar gyfer eitemau neilltuol, y polisi yn unol â mynegai prisiau priodol.

Fyddwn ni ddim yn codi arnoch chi am unrhyw gynnydd, nac yn eich ad-dalu am unrhyw ostyngiadau a wneir i'r symiau yswiriedig fel canlyniad i fynegrifo ond ar ddiwedd pob cyfnod yswiriant, fe fydd y premiwm adnewyddu'n cael ei sylfaenu ar y symiau yswiriedig a gymhwyswyd.

Yn achos hawliad, bydd mynegrifo'n parhau o ddyddiad y difrod hyd at amser setlo'r hawliad dilynol, hyd at uchafswm o gynnydd yn y symiau yswiriedig o 20% o ddyddiad y difrod. Fodd bynnag, fyddwn ni ddim yn talu am gostau ychwanegol sy'n codi oherwydd oedi dianghenraid ar eich rhan.

Deddfu sy'n berthnasol i'r polisi

Oni bai ein bod ninnau a chithau wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig:

- i bydd adrannau 1a i 6 o'r polisi hwn yn cael eu rheoli a'u dehongli yn unol â Deddfau Lloegr oni bai bod yr eiddo wedi'i leoli yn Yr Alban, ac felly Deddfau'r Alban fydd yn gymwys;
- ii bydd adran 7 o'r polisi hwn bob amser yn cael ei rheoli a'i dehongli yn unol â Deddfau Lloegr.

Mwy nag un eiddo wedi'i yswirio

Os oes mwy nag un eiddo wedi'i yswirio dan y polisi hwn, mae telerau, amodau, eithriadau a rhwymedigaethau'r polisi'n cael eu cymhwyso ar wahân i bob eiddo fel petai nhw wedi'u hyswirio gan bolisi ar wahân.

Treth ar Werth (TAW)

Wrth gyfrifo eich symiau yswiriedig, fe ddylech gynnwys TAW i'r graddau eich bod yn gorfod ei dalu. Mae amgylchiadau unigol yn gorchymyn pa un ai bod gwaith atgyweirio yn dilyn difrod yn cael ei ddynodi fel gwaith na chodir TAW arno ai peidio, ond mae'n dra thebyg bod gwaith atgyweirio ar y cyfan yn denu TAW ar y raddfa sylfaenol. Fe ddylech ymgynghori â'ch ymgynghorwyr proffesiynol neu Cyllid a Thollau EM os oes angen cyngor arnoch ynglŷn â TAW. Gall symiau yswiriedig gael eu heffeithio'n sylweddol gan TAW. Canlyniad posib o'u cyfrifo'n anghywir all fod y caiff taliadau hawliadau eu gostwng oherwydd gweithredu colled (gweler adran 1a, cymalau 7 ac 8 ar dudalen 26). Mae unrhyw brisiad o'ch adeiladau a ddarperir gynnwys ni bob amser yn cynnwys TAW ar y raddfa sylfaenol.



Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd yr holl ddata a gyflwynir, boed yn bersonol neu heb fod yn bersonol, yn cael ei brosesu a'i drafod yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n bosib i'r wybodaeth a roddwyd gynnwch chi gael ei dal a'i throsglwyddo at yswirwyr ac ailyswirwyr eraill at bwrpas gwarantu a hawliadau.

Defnyddir technoleg a gweithdrefnau cadarn i helpu diogelu eich gwybodaeth rhag defnydd amhriodol ac fe gaiff y rhain eu hadolygu a'u diweddarw wrth i dechnoleg newydd ddod i'r golwg. Mae'n bosib y bydd y gwarantwyr ac Integra Insurance Solutions Ltd, fel y gweinyddwyr, ddefnyddio eich gwybodaeth i bwrpas gwarantu, dadansoddiad ystadegol, ymchwil i'r farchnad, rheoli a phrofi risg er mwyn sicrhau cywirdeb y systemau. Caiff eich gwybodaeth ei rhannu dim ond pan fo gofyn neu ganiatâd gwneud trwy'r gyfraith.

Gweinyddu'r polisi

Er mwyn gweinyddu eich polisi yswiriant ac unrhyw hawliadau a wneir yn erbyn y polisi, mae'n bosib y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda thrydydd parti perthnasol megis aseswyr colledion, cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Os caiff eich gwybodaeth ei throsglwyddo, fe fydd yn cael ei ddiogelu'n briodol.



Mae i'r geiriau neu'r cymalau canlynol ystyr penodol. Bydd y diffiniadau isod yn gymwys lle bynnag y bydden nhw'n ymddangos mewn print du amlwg yng ngeiriad eich polisi. Mae'r diffiniadau hefyd yn gymwys pan y'i defnyddir yn **eich rhestr atodol** neu **arnodiad**.

Adeiladau

Yr adeiladau yn yr **eiddo** a adeiladwyd o frics, carreg neu goncrid â tho llechi, teils, concrid, metal neu slabiau, wedi'u llunio o ddeunyddiau anllosgadwy oni bai y nodir yn wahanol **inni**. Adeiladau yn cynnwys eu gosodiadau a'u ffitiadau parhaol, gosodiadau gwresogi a goleuo parhaol, ffenestri (yn cynnwys ffenestri lliw, wedi'u peintio neu wedi'u hengrafu), meysydd parcio, paneli solar, tyrbinau gwynt, cyfarpar derbyn teledu lloeren, erialau teledu neu radio, ffitiadau a mastiau erialau, tanciau storio tanwydd allanol, adeiladau allanol bychain a phyrth mynwentydd beth bynnag fo eu hadeiladwaith, waliau terfyn, ffensys, giatiau, hysbysfyrddau, llwybrau, rhodfeydd a manau palmantog a, cyn belled ag y'i hystyri yn ansymudol, gosodiadau a ffitiadau integrol adeilad, bedyddfeini, pulpudau, paneli, sgriniau a seddi i gyd yn perthyn i **chi** a thros y rhai rydych **chi** wedi derbyn cyfrifoldeb cyfreithiol

Cwmni/ni/ein/inni

International Insurance Company of Hannover SE Cangen y DU.

Cyfeiriwch at dudalen 4 – 'eich polisi yswiriant' am wybodaeth bellach.

Cynnwys

Dodrefn, deunyddiau, offerynnau cerdd, organau, cyfarpar clyweled gosodedig a rhydd, nwyddau bwytdaw y phob cynnwys arall, gan gynnwys bedyddfeini symudol, pulpudau, paneli, sgriniau a seddi, yn yr **adeiladau** yn yr **eiddo** a phopeth sy'n perthyn i **chi** a thros y rhai rydych **chi** wedi derbyn cyfrifoldeb cyfreithiol.

Dydy'r cynnwys ddim yn cynnwys:

- i arian, cardiau credyd neu ddebyd, offerynnau trafodadwy eraill;
- ii cerbydau modur wedi'u trwyddedu ar gyfer defnydd ar y ffordd neu eu hategolion, trelars, carafanau, cychod neu awyrennau;
- iii gwisgo dillad neu eiddo personol heblaw am yr hyn a ddisgrifir yn estyniad 3 adran 1a – difrod i eiddo;
- iv creaduriaid byw, coed, llwyni, planhigion neu lystyfiant arall;
- v unrhyw eitemau wedi'u hyswiro'n fwy penodol yn y polisi hwn neu unrhyw bolisi arall.

Cyfeiriad gohebiaeth

Enw a chyfeiriad y swyddog a awdurdodir ganddoch **chi** i weithredu ar **eich** rhan ar faterion yn ymwneud â'r polisi hwn.

Difrod

Colled, dinistr neu ddifrod.

Arnodiad

Amrywiad yn nhelerau'r polisi hwn.

Tâl dros ben

Swm i'w ddiwyddu o unrhyw setliad hawliad. Mae swm unrhyw dâl dros ben wedi'i nodi'r polisi hwn neu'n cael ei ddangos yn **eich rhestr atodol**.

Yswiriedig/chi/eich

Y bobl a enwir yn **eich rhestr atodol** fel yr yswiriedig.

Lle bo'r **rhestr atodol** yn dangos enw eglwys yn unig fel yr yswiriedig, fe wnawn ni ddehongli "yswiriedig/chi/eich" fel corff llywodraethol, yn cynnwys unrhyw gorff ymddiriedolwyr, yr eglwys.

Eiddo yswiriedig

Yr eiddo yswiriedig a ddisgrifir yn **eich rhestr atodol**.

Cyfnod yswiriant

Y cyfnod a nodir yn **eich rhestr atodol** dros yr hyn rydyn ni'n cytuno i ddarparu yswiriant a ddisgrifir yn y polisi yn gyfnewid am **eich** taliad o'r premiwm, neu gytundeb i'w dalu.

Eiddo

Yr eiddo a ddangosir fel y cyfeiriad risg yn **eich rhestr atodol**.

Rhestr atodol

Manylion amdanoch **chi**, yr **eiddo**, **cyfeiriad gohebiaeth**, **symiau yswiriedig** a **therfynau atebolrwydd**, **cyfnod yswiriant** ac adrannau'r polisi sy'n berthnasol ynghyd â manylion premiymau sy'n daladwy ganddoch, neu i, **chi**.

Swm yswiriedig/terfyn atebolrwydd/terfyn indemniad

Y swm yswiriedig fel y'i dangosir yn **eich rhestr atodol** ynghyd ag unrhyw gymhwysiad ar gyfer amddiffyn rhag chwyddiant (lle bo'n gymwys) ydy'r uchafswm wnawn ni ei dalu am yr holl hawliadau sy'n codi o un digwyddiad unigol. Fodd bynnag, os oes terfyn penodol yn gymwys (fel y'i manylir yn y polisi hwn), wnawn ni ddim talu mwy na'r terfyn penodol hwnnw.

Ffiniau tiriogaeth

Lloegr, Yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Gweithwyr gwirfoddol

Gweithwyr gwirfoddol yn gweithredu dan **eich** awdurdod chi tra ynghlwm wrth fusnes eich eglwys neu mewn gweithgareddau awdurdodedig mewn cysylltiad â'ch eglwys **chi**.



Cyfeiriwch at bob adran unigol am unrhyw amodau neilltuol sy'n cael eu cymhwyso.

1. Cadwraeth

Bydd ein hatebolrwydd **ni** yn amodol ar i **chi** gadw a chyflawni telerau, darpariaethau, amodau ac **arnodiadau**'r polisi hwn.

2. Hawliadau twyllodrus

Os ydych **chi** neu unrhyw un yn gweithredu ar **eich** rhan yn gwneud hawliad dan y polisi gan wybod bod yr hawliad yn ffug neu'n dwyllodrus mewn unrhyw ffordd, neu, yn fwriadol yn darparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol (ar lafar neu'n ysgrifenedig) i gefnogi'r hawliad, byddwn **ni**:

- ddim yn talu'r hawliad cyfredol ac efallai'n adfer costau unrhyw daliadau hawliad a wnaed cyn darganfod y weithred dwyllodrus;
- o bosib yn dileu'r polisi o ddyddiad y weithred dwyllodrus neb ad-daliad premiwm ac adfer gynnoch **chi** symiau unrhyw hawliadau eraill neu rhan-hawliadau eraill a dalwyd ers y dyddiad hwnnw.

3. Dyletswydd gofal

Fe ddylech **chi** gymryd pob cam rhesymol i:

- amddiffyn a chynnal **eiddo yswiriedig**;
- atal **difrod** i'r **eiddo yswiriedig**;
- atal niwed i bersonau eraill neu **ddifrod** i'w heiddo;
- gydymffurfio â deddfau, is-ddeddfau a rheoliadau a osodir gan unrhyw awdurdod;
- arfer gofal wrth ddewis gweithwyr.

4. Yswiriannau eraill

Os ar adeg pan fo hawliad yn codi dan y polisi hwn (heblaw dan adran 6 – damwain bersonol) bod unrhyw yswiriant arall mewn grym yn rhoi sicrwydd yswiriant i'r un **difrod** neu atebolrwydd, fyddwn **ni** ddim yn atebol am fwy na'n rhan gymesur **ni**.

Os ydy'r fath yswiriant arall yn amodol ar unrhyw amod o golled, fe fydd y polisi hwn (os nad eisoes yn amodol ar unrhyw amod o golled) hefyd yn amodol ar golled.

5. Amgylchiadau neilltuol

Wnawn **ni** ddim yn talu hawliad os ydych **chi**'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amod neilltuol a nodir yn y polisi os ydy methiant o'r fath yn achosi **difrod** neu'n cynyddu'r tebygolrwydd o **ddifrod**.

6. Dyletswydd cynrychiolaeth deg

Eich cyfrifoldeb **chi** ydy gwneud cynrychiolaeth deg o'r wybodaeth angenrheidiol i **ni** i ddarparu'r yswiriant dan y polisi hwn.

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol ar ddechrau eich contract yswiriant ac yn parhau trwy gydol **cyfnod yr yswiriant**. Mae'n rhaid i **chi** ddweud wrthon **ni** am unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai gynyddu'r risg o **ddifrod**, anaf neu atebolrwydd, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- cau, ymadael (gan gynnwys ymadael dros dro) neu ddymchweliad yr **eiddo**;
- newid yn nefnydd yr **eiddo**;
- newidiadau neu atgyweiriadau saernïol i'r **adeiladau** (heblaw contractwyr yn cynnal atgyweiriadau, newidiadau bychain neu gynnal a chadw ar raddfa fechan ar yr **eiddo**, gyda'u bod nhw ddim yn defnyddio sgaffaldiau);
- newidiadau yn **eich** gweithgareddau.

Er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth deg wedi'i gwneud, mae'n bosib y bydd gofyn ichi wneud ymholiadau gyda swyddogion eraill yr ymgynghorwyr **yswirio** a'ch rhai **chi**.

Lle ceir ymgais fwriadol neu ddi-hid at gamgynrychiolaeth neu ddiffyg datgelu gwybodaeth berthnasol, fe gaiff y polisi ei drin fel yn ddi-rym a heb effaith o'r dyddiad hwnnw ac ni chaniateir dychwelyd premiwm.

Lle bo camgynrychiolaeth neu ddiffyg datgelu o'r fath heb fod yn fwriadol neu'n ddi-hid ond y byddai wedi effeithio ar **ein** hystyriaeth o'r risg, mae'n bosib y byddwn ni'n cymryd y camau canlynol yn effeithiol o ddyddiad y camgynrychiolaeth neu'r diffyg datgelu:

- os na fasen **ni** wedi darparu yswiriant ar unrhyw delerau, fe wnawn ni drin y polisi fel yn ddi-rym ac fe wnawn ni ddychwelyd swm unrhyw breimiymau a dalwyd o'r dyddiad hwnnw;
- petawn **ni** wedi dod i gytundeb ond gyda phremiwm ychwanegol mae'r hawl gynnon **ni** i ostwng unrhyw daliad hawliad yn gymesur â swm y tanddaliad; a/neu
- petawn **ni** wedi dod i gytundeb ond wedi cymhwyso telerau gwahanol mae'r hawl gynnon **ni** i ddiwygio'r telerau.

7. Cymodi

Lle bu i **ni** dderbyn hawliad dan y polisi hwn ond na allwn **ni** a **chi** gytuno ar y swm sydd i'w dalu, bydd yr anghytundeb yn cael ei gyfeirio at ganolwr a benodir ar y cyd ganddoch **chi** a **ni** yn unol â'r darpariaethau statudol ar gyfer penodi canolwr Lle bo hyn yn digwydd, rhaid cael dyfarniad gan y canolwr cyn y gellir dechrau gweithrediadau cyfreithiol yn ein herbyn **ni**.

8. Diddymiad

Fe gewch **chi** ddiddymu eich polisi o fewn 14 niwrnod o ddyddiad pwrkasu neu adnewyddu'r contract neu'r diwrnod y byddwch **chi** yn derbyn **eich** dogfennau polisi neu adnewyddu, pa un bynnag ydy'r diweddaraf. Fe adnabyddir y cyfnod hwn fel y cyfnod ailfeddwl.

Os ydych chi'n dymuno diddymu a bod y sicrwydd yswiriant heb ddechrau eto, fe fydd hawl gynnoch **chi** i ad-daliad llawn o'r premiwm a dalwyd, llai didyniad cymesur am yr amser y cawsoch ddarpariaeth sicrwydd yswiriant gynnon **ni**.

Os na chaiff y polisi ei ddiddymu o fewn y cyfnod ailfeddwl, fe fydd yn parhau mewn grym ac fe fydd gofyn i **chi** dalu'r premiwm.

Fe gewch **chi** ddiddymu'r polisi ar unrhyw adeg wedi'r cyfnod ailfeddwl, ym mha achos caiff cyfran o'r premiwm ei ad-dalu i **chi**. Bydd unrhyw ad-daliad premiwm yn dibynnu ar ba un ai bod unrhyw ddigwyddiad sy'n creu'r galw am hawliad yn digwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant** ac am ba hyd mae'r polisi wedi bod yn weithredol.

Fe gewch **chi** ddiddymu'r polisi trwy gysylltu ag adran yr eglwysi.

Os ydy premiwm y polisi hwn i'w dalu trwy randaliadau, mae hi'n amod bod pob rhandaliad i'w dalu erbyn y dyddiad talu neu fel arall mae'r hawl gynnon **ni** i ddiddymu'r polisi yn effeithiol o'r dyddiad pan fo'r taliad yn dod yn ddyledus.

Mewn amgylchiadau heblaw am ddiffyg talu rhanddaliadau, fe allwn **ni** ddiddymu'r polisi neu unrhyw adran ohono trwy anfon rhybudd saith niwrnod atoch **chi** trwy ddanfoniad wedi'i gofnodi at y **cyfeiriad gohebiaeth** mwyaf diweddar sy'n wybyddus. Fe wnawn ni ad-dalu i chi y rhan nas defnyddiwyd o'r premiwm a dalwyd.

Chewch **chi ddim** gwneud hawliad am ddigwyddiad a ddigwyddodd wedi'r dyddiad y diddymwyd y polisi, ond ni fydd diddymu'r polisi yn effeithio ar **eich** hawl i hawlio am ddigwyddiad a ddigwyddodd cyn dyddiad y diddymwyd y polisi.



Cyfeiriwch at bob adran unigol am unrhyw amodau neu ddyletswyddau neilltuol sy'n berthnasol.

Eich dyletswyddau

- Mae hi'n gysail amod atebolrwydd, ar adeg unrhyw ddigwyddiad a all greu'r galw am hawliadau, bod rhaid i chi:
- ddweud wrthyn **ni** ar unwaith a rhoi i **ni**'r holl gynhorthwy y dylen **ni**'n rhesymol ei ddisgwyl;
 - hysbysu'r heddlu o fewn 48 awr os achosir y **difrod** gan ladron, personau maleisus neu fandaliaid neu trwy derfysg, anghydfod dinesig, streiciau neu aflonyddwch llafur;
 - ddarparu i **ni** ar **eich** cost eich hunan manylion llawn am yr hawliad yn ysgrifenedig, yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth i gefnogi sydd eu hangen arnon **ni** o fewn y cyfnodau canlynol:
 - 7 diwrnod ar gyfer **difrod**, aflonyddwch sifil, streiciau, anghydfodau llafur neu bersonau maleisus;
 - 30 diwrnod wedi i'r cyfnod indemniad ddod i ben ar gyfer hawliadau dan adran 4 - colli incwm;
 - 30 diwrnod wedi unrhyw **ddifrod**, niwed neu ddamwain arall;
 - gymryd camau ar unwaith cyn belled â'i bod yn ymarferol resymol i leihau colled, ailddarganfod eiddo coll, ac atal **difrod**, niwed neu ddamwain pellach;
 - ar ein cais ni a'n cost ni wneud neu ganiatáu cael gwneud popeth sy'n rhesymol ofynnol gynnon ni at bwrpas adennill gan bartion eraill, boed camau o'r fath yn angenrheidiol cyn neu ar ôl i **ni** dalu **eich** hawliad dan y polisi.

Yn ychwanegol, gyda golwg ar hawliad dan adran 5 – atebolrwydd, mae'n rhaid i **chi**:

- beidio gwneud neu ganiatáu gwneud ar eich rhan unrhyw gyfaddefiad, cynnig, addewid, taliad neu indemniad heb ein caniatâd ysgrifenedig **ni**;
 - anfon ymlaen aton ni pob llythyr, hawliad, gwrit, gwŷs a phroses ar unwaith wedi'i dderbyn, a hynny heb eu cydnabod, a'n hysbysu'n ysgrifenedig ar unwaith pan gewch chi wybodaeth am unrhyw erlyniad, cwest neu ymchwiliad i niwed angheuol mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.

Gyda golwg ar hawliad dan adran 6 - damwain bersonol, mae'n rhaid i chi:

- drefnu i'r **person yswiriedig** osod eu hunain dan ofal meddyg cymwys ac iddyn nhw ddilyn ei gyngor;
 - ddarparu i **ni** ar **eich** cost eich hunan pob tystysgrif, gwybodaeth a thystiolaeth sydd ei angen arnon **ni**.

Ein hawliau

- Mae gynnon **ni**'r hawl i fynd i mewn i unrhyw **adeilad** lle mae **difrod** wedi digwydd a chymryd a chadw unrhyw beth o'r **eiddo yswiriedig** a delio ag achub neu arbed unrhyw beth mewn modd rhesymol. Mae gynnon **ni**'r hawl i unrhyw beth o'r **eiddo yswiriedig** gael ei achub neu'i arbed. Chewch **chi** ddim golchi dwylo o unrhyw eiddo a'i adael i **ni**.
- Mae gynnon **ni**'r hawl i elwa o'ch hawl **chi** i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn parti arall ac mae gynnon **ni** hawl i gymryd drosodd amddiffyniad neu setliad hawliad yn **eich** erbyn gan barti arall.
- Fe gawn **ni** ar unrhyw adeg dalu i **chi**'r **swm yswiriedig** neu **uchafswm indemniad** neu **uchafswm atebolrwydd** (llai symiau a dalwyd eisoes) neu unrhyw swm llai y gellir setlo hawliad ac o hynny ymlaen, fyddwn **ni** ddim dan rwymedigaeth bellach mewn cysylltiad â'r hawliad hwnnw, heblaw am gostau a threuliau a achoswyd cyn dyddiad taliad o'r fath.
- Os byddwn **ni**'n dewis atgyweirio, ailosod neu adnewyddu unrhyw eiddo, wnawn ni ddim ond gwneud hynny mewn modd digonol rhesymol, a hynny heb i **ni** wario mwy na'r swm yswiriedig perthnasol.
- Ynghylch hawliad dan adran 6 – damwain bersonol:
 - Mae gynnon **ni**'r hawl i'w gwneud hi'n ofynnol, ar ein cost **ni**, i'r **person yswiriedig** ymgymryd ag archwiliad meddygol.
 - Yn achos marwolaeth **person yswiriedig**, fe fydd yr hawl gynnon **ni** i gynnal post-mortem o'r corff ar ein cost ni ein hunain.



Cyfeiriwch at bob adran unigol am unrhyw eithriadau neilltuol sy'n berthnasol.

Dydy'r polisi hwn ddim yn delio â:

1. Risgiau a niweidir yn rhywle arall

Eiddo neu atebolwydd a yswirwyd yn fwy penodol dan bolisi arall.

2. Halogiad ymbelydrol

- i Colli neu ddinistrio neu **ddifrod** i unrhyw eiddo o gwbl neu unrhyw golled neu draul o gwbl fel canlyniad neu'n codi o hynny neu unrhyw golled ganlyniadol.
- ii Unrhyw atebolwydd cyfreithiol o ba natur bynnag.
- iii Marwolaeth neu niwed a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu y cyfrennir at gan neu'n codi o:
 - a ymbelydredd ïoneiddio neu halogiad gan ymbelydredd unrhyw danwydd niwclear neu gan unrhyw wastraff niwclear trwy losgi tanwydd niwclear;
 - b nodweddion ymbelydrol, gwenwynig, ffrwydrol neu beryglus eraill unrhyw waith niwclear ffrwydrol neu ran ohono.

Ni fydd yr eithriad hwn yn gymwys i adran 5 - atebolwydd cyflogwyr gyda golwg ar atebolwydd am farwolaeth, niwed corfforol, haint neu salwch gweithiwr heblaw pan fyddwch chi wedi ymgymryd, dan contract neu gytundeb, i indemnio unrhyw egwyddor neu pan fyddwch **chi** wedi derbyn atebolwydd dan contract am farwolaeth, niwed corfforol, haint neu salwch o'r fath a lle fase atebolwydd o'r fath ddim wedi glynu yn absenoldeb contract neu gytundeb o'r fath.

3. Risg o ryfel

Unrhyw ganlyniadau rhyfel, goresgyniad, gweithred gelyn tramor, ymladd (boed rhyfel yn cael ei gyhoeddi ai peidio), rhyfel cartref, chwyldro, gwrthryfel neu rym milwrol neu drawsfeddiannol.

4. Clec sonig

Difrod gan donnau pwysedd a achosir gan awyren neu ddyfeisiau awyrol eraill yn teithio ar gyflymderau sonig neu uwchsonig.

5. Gweithredoedd o derfysgaeth

Diffiniad

Gweithred o derfysgaeth

Gweithred personau yn gweithredu ar ran neu mewn cysylltiad ag unrhyw fudiad sy'n cynnal gweithgareddau sydd wedi'i hanelu at ddymchwel neu ddylanwadu trwy rym neu drais Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw Lywodraeth arall mewn cyfraith trwy hawl neu mewn gwirionedd.

Eithriadau gweithrediadau o derfysgaeth

Dydy'r polisi hwn ddim yn cynnwys unrhyw hawliad sy'n codi o golled, **difrod**, cost neu draul a achosir neu a berir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu sy'n digwydd trwy neu fel canlyniad i ryfel, goresgyniad, gweithred gelyn tramor, ymladd (pa un ai ydy rhyfel wedi'i gyhoeddi ai peidio), rhyfel cartref, gwrthryfel, terfysg, **gweithred o derfysgaeth** neu filwrol neu rym camfeddiannol neu atafaeliad neu wladoli neu feddiant (neu unrhyw weithred a gymerir i reoli, atal, gorthrymu neu mewn unrhyw ffordd yn ymwneud ag unrhyw un o'r uchod) heblaw:

- i i'r graddau ei bod hi'n ofynnol cydymffurfio â gofynion lleiaf y gyfraith yn Nheyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon gan gynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn ymwneud ag yswiriant atebolwydd gorfodol i gyflogai;
- ii lle bernir bod atebolwydd yn bodoli, a hynny gan lys o awdurdod cymwys yn unol â gofynion lleiaf Deddf Traffig Ffyrdd 1988 neu ddiwygiadau dilynol at hynny neu olynwyr o hynny neu ddeddfwriaeth cymwys arall yn y diriogaeth lle digwydd y golled.

Eithriadau halogi eiddo

Dydy'r polisi hwn ddim yn cynnwys colled neu ddifrod neu gost neu draul mewn perthynas â'r eiddo sydd wedi'i yswirio a achosir neu a berir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu a ddigwydd trwy neu fel canlyniad i ryfel, goresgyniad gweithred gelyn tramor, ymladd (pa un ai ydy rhyfel wedi'i gyhoeddi ai peidio), rhyfel cartref, gwrthryfel, terfysg, **gweithred o derfysgaeth** neu filwrol neu rym camfeddiannol neu atafaeliad neu wladoli neu feddiant (neu unrhyw weithred a gymerir i reoli, atal, gorthrymu neu mewn unrhyw ffordd yn ymwneud ag unrhyw un o'r uchod) fel canlyniad:

- i rhyddhau neu fygwth rhyddhau germau, clefyd neu heintiau neu ddifwynwyr cemegol neu fiolegol eraill;
- ii defnydd neu fygwth y defnydd o unrhyw ddyfais niwclear neu sylwedd ymbelydrol.

6. Achos gweithredu graddol

Difrod sy'n digwydd yn raddol dros gyfnod amser.

7. Adnabod data

- A
1. Colli, dinistrio, **difrod**, torri i lawr, colli incwm neu wariant ychwanegol; neu
 2. Atebolrwydd cyfreithiol o ba natur bynnag heblaw'r hyn mae angen yswiriant ar ei gyfer trwy ddarpariaethau unrhyw ddeddf yn ymwneud ag yswiriant atebolrwydd i weithwyr gorfodol;

a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan neu'n cynnwys neu a gyfrenir ato neu'n codi o fethiant unrhyw gyfrifiadur, cyfarpar neu gyfrwng prosesu data, microsglodyn, cylched gyfannol neu ddyfais debyg neu unrhyw feddalwedd cyfrifiadurol, boed yn eiddo i **chi** ai peidio.

- i i adnabod yn gywir unrhyw ddyddiad fel ei gwir ddyddiad calendr;
- ii i gipio, arbed neu gadw, a/neu drafod, dehongli neu brosesu unrhyw ddata neu wybodaeth neu orchymyn neu gyfarwyddyd fel canlyniad i drin unrhyw ddyddiad heblaw fel ei gwir ddyddiad calendr;
- iii i gipio, arbed, cadw neu brosesu'n gywir unrhyw ddata fel canlyniad i weithredu unrhyw orchymyn sydd wedi cael ei raglennu i unrhyw feddalwedd cyfrifiadurol, sef gorchymyn sy'n achosi colli data neu'r anallu i gipio, arbed neu gadw neu brosesu'n gywir data o'r fath ar neu wedi unrhyw ddyddiad.

Os fel arall â sicrwydd yswiriant trwy **eich** polisi, ni fydd yr eithriad trwy baragraff A1. yn gymwys i:

- i laddrad, neu ymgais at laddrad;
- ii gwydr neu osodion iechydol;
- iii **arian**;
- iv ddamwain bersonol neu iawndal gweithwyr gwirfoddol;
- v colled, dinistr, **difrod**, colli incwm, gwariant ychwanegol dilynol fel canlyniad i dân, melt, ffrwydriad, daeargryn, tân neu fwg tanddaearol, awyrennau a dyfeisiau awyrol eraill, trawiad gan unrhyw gerbyd ffordd neu reilffordd neu anifail, storm, llifogydd, dŵr yn gollwng o unrhyw danc, cyfarpar neu bibell, dŵr yn rhewi mewn unrhyw offeryn neu beirianwaith dŵr neu wresogi gosodedig mewnol, olew yn gollwng o unrhyw beirianwaith gwresogi olew gosodedig, coed neu ganghennau'n syrthio, erialau neu fastiau derbyn teledu neu radio'n torri neu'n dymchwel, terfysg, cynnwrf sifil, streicwyr, gweithwyr wedi'u cloi allan neu bersonau'n cymryd rhan mewn aflonyddwch llafur, **difrod** maleisus.

- B Amddiffyniad cyfreithiol unrhyw hawliad a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan neu fel canlyniad i ddyfais yn methu adnabod, dehongli neu brosesu unrhyw ddyddiad fel ei gwir ddyddiad calendr.



Os, yn ystod y **cyfnod yswiriant**, ydy'r **eiddo yswiriedig** a ddisgrifir yn **eich rhestr atodol** yn dioddef **difrod** a achosir gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig 1 – 16 isod, fe wnawn ni dalu yn unol â thelerau'r adran hon ar gyfer cost y **difrod**, a bod y digwyddiad yswiriedig i'w weld yn weithredol yn **eich rhestr atodol**.

Yr hyn sy'n gynnwysedig

Yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig

Yn ychwanegol i'r digwyddiadau a ddisgrifir dan y pennawd "yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig" yn nigwyddiadau yswiriedig 1 – 16 isod, bydd eithriadau i - viii yn gymwys i'r holl ddigwyddiadau yswiriedig dan yr adran hon:

- i swm unrhyw **dâl dros ben** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**;
- ii **difrod** yn codi o neu'n cynnwys ymsuddiant, ymchwylld neu gwmp tir, sut bynnag yr achosir hyn, neu erydiad arfordirol;
- iii **difrod** yn codi o neu'n cynnwys pydredd gwlyb neu sych, sut bynnag yr achosir hyn;
- iv **difrod** a achosir gan lygredd neu halogiad ond ni fydd hyn yn eithrio difrod i'r **eiddo yswiriedig** a achosir gan:
 - a lygredd nau halogiad sydd ei hun yn ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad yswiriedig;
 - b unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sydd ei hun yn ganlyniad i lygredd neu halogiad;
- v **difrod** i eiddo symudol yn yr awyr agored heblaw bod darpariaeth benodol i hyn dan unrhyw estyniad yn yr adran hon;
- vi **difrod** a briodolir yn llwyr i newid yn lefel y tabl dŵr;
- vii unrhyw werth a roddir i eitem oherwydd ei hynafiaeth oni bai bod eitem wedi'i yswirio'n benodol yn **eich rhestr atodol**;
- viii **difrod** i **arian** fel y diffinnir yn adran 3 - arian.

Mae'r sicrwydd yswiriant yn cynnwys

Yr hyn sy'n gynnwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

1. Tân

Tân, mellt, ffrwydriad, daeargryn, tân tanddaearol neu fwg.

2. Awyren

Awyren neu ddyfeisiau awyrol eraill neu eitemau a ddisgynnir oddi arnyh nhw.

3. Gwrthdrawiad

Gwrthdrawiad gan unrhyw gerbyd ffordd neu reilffordd neu anifail.

4. Storm

Yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig

- i **Difrod** mwg a achosir gan fwrllwch, gwaith amaethyddol neu ddiwydiannol neu unrhyw achos graddol.

- i **Difrod** gan ddŵr yn gollwng o gyffiniau arferol unrhyw gwrs dŵr naturiol neu artiffisial, neu lyn, cronfa, camlas neu argae.
- ii **Difrod** gan lif o'r môr boed hynny'n ganlyniad i storm neu fel arall.
- iii **Difrod** gan rew.
- iv **Difrod** i ffensys, giatiau (ond nid pyrth mynwentydd) neu eiddo symudol yn yr awyr agored.
- v **Difrod** i lwybrau, rhodfeydd a mannau palmantog oni bai y difrod y prif adeilad ar yr un pryd.
- vi **Difrod** i gyfarpar derbyn teledu lloeren, erialau teledu neu radio, gosodiadau neu fastiau erialau.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

5. Llifogydd

Llifogydd a achosir gan:

- i ddŵr yn gollwng o gyffiniau arferol unrhyw gwrs dŵr naturiol neu artiffisial (heblaw tanciau, offer neu bibellau dŵr) neu lyn, cronfa, camlas neu argae;
- ii lif o'r môr.

6. Dŵr yn gollwng

Dŵr yn gollwng o unrhyw danc, offer neu bibell.

7. Dŵr yn rhewi

Dŵr yn rhewi mewn unrhyw gyfarpar neu osodiad dŵr neu wresogi mewnlol sefydlog.

8. Olew yn gollwng

Olew yn gollwng o unrhyw osodiad gwresogi a dannir ag olew.

9. Coed neu ganghennau'n syrthio

10. Erialau a mastiau'n torri

Cyfarpar derbyn teledu lloeren, erialau teledu a radio, tyrbinau gwynt, gosodiadau a mastiau erialau'n torri.

11. Terfysg ac aflonyddwch sifil

Terfysg, aflonyddwch sifil, streicwyr, gweithwyr wedi'u cloi allan neu bersonau'n cymryd rhan mewn cynnwrf llafur.

12. Difrod maleisus

13. Lladrad neu ymgais i ladrata

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i **Difrod** a achosir gan rew.
- ii **Difrod** i ffensys, giatiau (ond nid pyrth mynwentydd) ac eiddo symudol yn yr awyr agored.
- iii **Difrod** i lwybrau, meysydd parcio a mannau palmantog oni bai y difrodir y prif adeilad ar yr un pryd.

- i **Difrod** gan ddŵr yn arllwys neu'n gollwng o osodiad o daenellwyr awtomatig.
- ii **Difrod** mewn perthynas ag unrhyw **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.

- i **Difrod** mewn perthynas ag unrhyw eiddo sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.

- i **Difrod** fel canlyniad i gwmpo neu docio o unrhyw fath a wneir gynnoch **chi**, **eich** gweithwyr neu gan **weithwyr gwirfoddol**.

- i **Difrod** i erialau, ffitiadau a mastiau erialau eu hunain.

- i **Difrod** a achosir neu'n digwydd trwy atafaelu neu ddinistrio neu hawlio trwy orchymyn y Llywodraeth neu unrhyw awdurdod cyhoeddus.

- i **Difrod** a achosir neu'n digwydd trwy atafaelu neu ddinistrio neu hawlio trwy orchymyn y Llywodraeth neu unrhyw awdurdod cyhoeddus.
- ii **Difrod** trwy ladrad neu ymgais i ladrata neu gan risgiau a ddisgrifir yn nigwyddiad yswiriedig 1.
- iii **Difrod** mewn perthynas ag unrhyw **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.
- iv **Difrod** yn codi o ddileu, colli, gwyrdroi neu lygru gwybodaeth ar systemau cyfrifiadurol neu gofnodion, rhaglenni neu feddalwedd arall.
- v **Difrod** i gynnwys adeiladau allanol heb eu cloi.
- vi **Difrod** a achosir gan bersonau maleisus yn gweithredu ar ran nau mewn cysylltiad ag unrhyw fudiad gwleidyddol.

- i Mewn perthynas â lladrad metal allanol unrhyw golled sy'n digwydd pan fo sgaffaldiau'n cael eu codi ger yr **eiddo** oni bai ein bod **ni** wedi cytuno'n ysgrifenedig i barhau'r sicrwydd yswiriant.
- ii **Difrod** mewn perthynas ag unrhyw **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.
- iii **Difrod** i gynnwys adeiladau allanol heb eu cloi.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

14. Torri gwydr ar ddamwain

Torri gwydr ar ddamwain (heblaw am wydr lliw, gwydr wedi'i engrafio neu wydr wedi'i lythrennu), gosodiadau a ffitiadau iechydol ac arwyddion, gan gynnwys cost:

- i atgyweirio'r fframwaith wedi torri'r gwydr yswiriedig;
- ii bordio angenrheidiol i ddisgwyl adnewyddu'r gwydr yswiriedig;
- iii yn achos gwydr dwbl neu driphlyg, y gost ychwanegol o ail-greu gwactodau neu bwrcasu a gosod unedau seliedig newydd.

15. Torri gwydr lliw ar ddamwain

Torri ar ddamwain gwydr lliw, wedi'i engrafio, ei lythrennu neu unrhyw wydr neilltuol arall gan gynnwys costau a gyfeirir atyn nhw yn 14i, 14ii ac 14iii uchod.

16. Difrod damweiniol

Unrhyw **ddifrod** damweiniol arall.

Dydy'r sicrwydd yswiriant yma ddim ond yn gymwys os ydy'r digwyddiad yswiriedig hwn yn dangos fel yn weithredol yn **eich rhestr atodol**.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i **Difrod** i wydr, gosodiadau a ffitiadau iechydol neu arwyddion a ddifrodwyd eisoes ar ddechrau'r **cyfnod yswiriant** cyntaf.
- ii Toriad mewn perthynas ag unrhyw **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.
- iii Torri gwydr rhydd.
- iv Toriad a achosir gan neu fod modd ei olrhain i newidiadau, atgyweirio neu waith adeiladu arall a wneir gynnoch chi, eich gweithwyr neu gan **weithwyr gwirfoddol** i neu yn yr **eiddo** trwy'r hyn mae'r risg o doriad yn cynyddu.
- v **Difrod** i fylbiau neu diwbiau oni bai y difrod yr arwyddion sy'n cynnwys y rhain ar yr un pryd.

- i **Difrod** i wydr lliw, wedi'i engrafio, ei lythrennu neu unrhyw wydr neilltuol arall a ddifrodwyd eisoes ar ddechrau'r **cyfnod yswiriant** cyntaf.
- ii. Toriad mewn perthynas ag unrhyw **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio.
- iii Torri gwydr rhydd.
- iv Toriad a achosir gan neu bod modd ei olrhain i newidiadau, atgyweirio neu waith adeiladu arall a wneir gynnoch **chi**, **eich** gweithwyr neu gan **weithwyr gwirfoddol** i neu yn yr **eiddo** trwy'r hyn mae'r risg o doriad yn cynyddu.

- i **Difrod** a achosir gan unrhyw un o ddigwyddiadau yswiriedig 1-15 neu gan yr achosion a eithriwyd o'r digwyddiadau hynny boed y digwyddiadau wedi'u hyswiro ai peidio.
- ii **Difrod** a achosir gan wisgo a thraul, dibrisiad, amodau atmosfferig neu hinsoddol, llygredd, neu halogiad, rhwd, llwch, pydredd, ffwng, pryfaid, fermin neu unrhyw achos graddol.
- iii **Difrod** a achosir gan y broses o lanhau, lliwio, atgyweirio neu adnewyddu.
- iv Atafaelu neu gadw trwy orchymyn unrhyw lywodraeth, awdurdod lleol neu heddlu.
- v **Difrod** a achosir gan neu'n cynnwys dileu, colli, gwyrddroi neu lygru gwybodaeth ar systemau cyfrifiadurol neu gofnodion, rhaglenni neu feddalwedd arall.
- vi Methiant mecanyddol neu drydanol.
- vii Torri falfiau, bylbiau neu diwbiau trydanol oni bai y difrod y cyfarpar sy'n cynnwys y rhain ar yr un pryd.
- viii **Difrod** i adeilad neu adeiladwaith a achosir gan ei ddymchweliad neu gracio ei hun.
- ix **Difrod** i lwybrau, meysydd parcio, manau palmentog ac eraill caled dan draed, oni bai y difrod yr prif adeilad ar yr un pryd.

Estyniadau perthnasol i adran 1a – Difrod i eiddo

Yr hyn sy'n gynwysedig

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Eithriadau i - viii a ddisgrifir ar ddechrau'r adran hon neu unrhyw ddigwyddiad a ddisgrifir dan y pennawd "yr hyn sydd ddim yn gynwysedig" yn nigwyddiadau yswiriedig 1-16.

Estyniad

1. Caffael cynnwys newydd

Caffael eitemau newydd o **gynnwys** yn ystod y **cyfnod yswiriant** hys at uchafswm o 10% o'r **swm yswiriedig** ar yr eitem **cynnwys** perthnasol neu £10,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant**, pa un bynnag ydy'r isaf, yn dilyn difrod gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Ar adeg nesaf adnewyddu eich polisi mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni am eitemau ychwanegol o'r fath ac fe gaiff y premiwm adnewyddu ei seilio ar y **symiau yswiriedig** a ddiweddarwyd.

Os fethwch chi â dweud wrthyn ni am ychwanegiadau o'r fath ar adeg adnewyddu, mae'n bosib na fyddwch chi wedi'ch yswirio am yr eitemau newydd wedi'r dyddiad adnewyddu.

2. Symud dros dro

Cynnwys ac eitemau penodol unrhyw le yn y **ffiniau tiriogaethol**:

- i tra'u bod wedi'u symud dros dro ar gyfer glanhau, adnewyddu neu atgyweirio, neu
- ii tra'u bod yn eich gofal chi neu eich gweithwyr cyflogedig neu aelod o'r eglwys, neu
- iii yn neu wrth gael eu cludo i neu o fanc yn dilyn **difrod** gan ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £2,500 ar unrhyw un hawliad.

3. Gwisgo dillad ac eitemau personol

Gwisgo dillad ac eitemau personol gan gynnwys beiciau yn perthyn i:

- i chi, eich gweithwyr cyflogedig, aelodau eich eglwys a **gweithwyr gwirfoddol**, tra wrthi ar fusnes eich eglwys neu weithgareddau awdurdodedig unrhyw le o fewn y **ffiniau tiriogaethol**;
 - ii ymwelwyr tra yn yr **eiddo** a thros hynny rydych wedi derbyn cyfrifoldeb;
- yn dilyn **difrod** gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £1,000 y person.

4. Gwobrau a nwyddau fel rhoddion

Gwobrau a nwyddau fel rhoddion i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau codi arian tra yn eich gofal chi neu dan ofal gweithiwr neu'n gyfrifoldeb aelod o'r eglwys unrhyw le o fewn y **ffiniau tiriogaethol** yn dilyn **difrod** gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £500 unrhyw un eitem a £5,000 unrhyw un digwyddiad codi arian.

- i **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bwt a'r holl ddrwsau wedi'u cloi.
- ii Eitemau personol.
- iii Eiddo wedi'i yswirio dan unrhyw bolisi arall.

- i **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bwt a'r holl ddrwsau wedi'u cloi.
- ii **Arian**, cardiau credyd neu ddebyd.
- iii Eiddo wedi'i yswirio dan unrhyw bolisi arall.

- i **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bwt a'r holl ddrwsau wedi'u cloi.
- ii **Arian**, cardiau credyd neu ddebyd.
- iii Eiddo wedi'i yswirio dan unrhyw bolisi arall.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Estyniad

5. Arddangosfeydd neu ddigwyddiadau

Eitemau sydd un ai yn perthyn i **chi** neu eitemau heb fod yn perthyn i chi ond yn gyfrifoldeb i **chi** a ddefnyddir mewn cysylltiad â neu wrth gael eu harddangos neu mewn digwyddiadau yn yr **eiddo** neu mewn **eiddo** rhywle arall o fewn y **ffiniau tiriogaethol** ac wrth gael eu cludo i neu o'r fath leoliadau, yn dilyn **difrod** gan ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Cyhyd a bod o leiaf 2 swyddog cyfrifol yn bresennol trwy'r amser tra bod yr arddangosfa neu'r digwyddiad ar agor i'r cyhoedd a bod yr **eiddo** dan sylw wedi'i gloi ar bob amser os nad oes unrhyw un yno.

Uchafswm: £1,000 ar unrhyw eitem a £5,000 i unrhyw un arddangosfa, gŵyl neu ddigwyddiad; ni fydd yr uchafswm hwn yn berthnasol gyda golwg ar eitemau sydd wedi'u hyswirio dan y polisi hwn tra yn **eich eiddo**.

6. Allweddi wedi'u colli neu eu dwyn

Y gost resymol a achosir yn angenrheidiol i ail-osod cloeon yn yr **eiddo** gan gynnwys cloeon sêffs neu ystafelloedd diogel yn yr **eiddo** yn dilyn colli allweddi.

Uchafswm: £2,500 ar unrhyw un hawliad.

7. Bwyd wedi'i rewi

Cost adnewyddu cynnwys eich rhewgyst ddofn neu rewgell yn yr **eiddo** yn dilyn **difrod** a achosir gan:

- i codiad neu ostyngiad mewn tymheredd;
- ii halogiad gan rewydd neu fwg o rewydd. Yn ogystal fe wnawn ni dalu, os bu iddo ddigwydd, costau llogi man arall i gadw bwyd wedi'i rewi dros dro.

Uchafswm: £1,000 ar unrhyw un hawliad.

8. Pibellau a cheblau gwasanaethau

Difrod damweiniol i'r pibellau a'r ceblau gwasanaethau sy'n gwasanaethu'r **eiddo** cyn belled mai chi sy'n gyfrifol am gost atgyweirio.

Uchafswm: £10,000 unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

9. Colli dŵr ar fesurydd

Colli dŵr ar fesurydd o gyfarpar neu osodiad d r sefydlog yn dilyn **difrod** damweiniol i'r cyfarpar neu'r gosodiad.

Uchafswm: £5,000 unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

10. Difrod gan y frigâd dân

Difrod a achosir gan y frigâd dân i dir yr **eiddo** rydych chi yn gyfrifol amdano.

Uchafswm: £10,000 ar unrhyw un hawliad.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bŵt a'r holl ddrwsau wedi'u cloi.
- ii Eiddo wedi'i yswirio dan unrhyw bolisi arall.

- i Y gost o ail-osod cloeon sêffs neu ystafelloedd diogel y mae'r allweddi wedi'u colli neu eu dwyn ar ôl cael eu gadael mewn ystafell heb neb yno (oni bai bod allweddi o'r fath mewn cynhwysydd dan glo).

- i **Difrod** fel canlyniad i weithred fwriadol unrhyw awdurdod cyflenwi ynni neu atal neu gyfyngu ar ynni gan awdurdod o'r fath.
- ii **Difrod** a achosir gan esgeulustod bwriadol.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Estyniad

11. Gwaith adeiladu

Pan fo **eich adeiladau** yn yr **eiddo** yn derbyn gwaith newid, estyn neu atgyweirio (y gwaith) ac mae'r gwaith yn cael ei gynnal gan contractwr (y contractwr) dan Gontract Adeiladu Canolradd JCT (IC 2011) ar gyfer mân waith adeiladu, neu ffurf arall ar gontract gyda'r un fath o amodau (y contract) o'r un fath, fe wnawn ni yswirio:

- i **eich adeiladau** a'r **cynnwys** yn yr **eiddo** yn erbyn **difrod** a achosir gan ddigwyddiadau yswiriedig 1, 2, 4, 5, 6, 11 yn eich enwau chi a'r contractwr ar y cyd;
- ii y gwaith a'r holl ddeunyddiau a'r nwyddau rhydd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer, wedi'u cludo at a'u gosod ar neu'n agos at y gwaith yn erbyn **difrod** a achosir gan ddigwyddiadau yswiriedig 1-16 yn eich enwau chi a'r contractwr ar y cyd.

Uchafswm mewn perthynas â ii uchod: £75,000 unrhyw un amser ac fel cyfanswm yn ystod unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

Os nad ydy **eich adeiladau** a'r **cynnwys** eisoes wedi'u hyswirio ar gyfer unrhyw un o ddigwyddiadau yswiriedig 1, 2, 4, 5, 6, 11, yna fe fydd yn rhaid i chi dalu premiwm ychwanegol ar gyfer cyfnod y gwaith er mwyn i ni allu eich yswirio chi a'r contractwr yn nhermau'r contract ar gyfer y gwaith.

Mewn perthynas â'r Estyniad hwn, bydd y termau chi/eich yn eithrio'r contractwr, er bod y contractwr wedi'i yswirio ar y cyd.

Mewn perthynas â'r estyniad hwn, ni fydd 'yr hyn sydd ddim yn gynwysedig' yn ymwneud â digwyddiad yswiriedig 16 iii yn gymwys.

12. Olew yn gollwng

Olew yn gollwng o system wresogi trwy olew sefydlog yn yr **eiddo** yn dilyn **difrod** damweiniol i'r system neu ei phibellau a'i thanciau.

Uchafswm: £5,000 unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

13. Offerynnau cerdd

Offerynnau cerdd yn perthyn i chi neu am y rhai rydych chi wedi derbyn cyfrifoldeb tra dan eich gofal **chi** neu **eich** gweithwyr neu aelod cyfrifol o'r eglwys unrhyw le o fewn y **ffiniau tiriogaethol** yn dilyn **difrod** gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £500 unrhyw un eitem a £5,000 unrhyw un hawliad.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i **Tâl-dros-ben** o £250 a gynyddwyd i £500 mewn perthynas â hawliadau'n codi o neu ddifrod a briodolir i'r gwaith yn codi o ddifrod maleisus neu ladrad (digwyddiadau yswiriedig 12 a 13) neu swm arall o'r fath perthnasol i'r estyniad hwn a ddangosir ar **eich rhestr atodol**.
- ii **Difrod** wedi'i yswirio'n fwy penodol, ar unrhyw bolisi arall.
- iii Gwaith na wnaethoch chi ddweud wrthy'n **ni** amdano cyn iddo ddechrau.
- iv Gwaith sy'n cael ei wneud gan contractwr sydd â'i enw a'i gyfeiriad heb ei roi i ni.
- v **Difrod** trwy weithredoedd o derfysgaeth fel y diffiniwyd yn eithriad 5. gweithredoedd o derfysgaeth (gweler tudalen 15).
- vi **Difrod** fel canlyniad i'r gwaith yn darfod yn llwyr neu'n rhannol ond heb gynnwys **difrod** a all ddigwydd yn ystod unrhyw gyfnod atal y gwaith a fyddai fel arall wedi'i sicrhau gan yr estyniad hwn.
- vii Y gost o ail-osod, atgyweirio neu unioni unrhyw ran o'r eiddo a yswiriwyd gan yr estyniad hwn sydd mewn cyflwr diffygiol oherwydd diffyg yn y dylunio, cynllun, manylion, deunyddiau neu'r saerniaeth ond ni fydd hyn yn berthnasol i **ddifrod** canlyniadol a achosir gan weddill yr eiddo yswiriedig sydd ddim mewn cyflwr diffygiol.
- viii **Difrod** i beiriannau, offer, cyfarpar neu adeiladweithiau dros dro'r contractwr.
- ix Cosbau cytundebol neu unrhyw golled ôl-ddilynol arall.
- x **Difrod** gan unrhyw ddigwyddiad nad oes rheidrwydd i **chi** yswirio yn ei erbyn dan amodau'r contract.

- i **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bwt a'r holl ddrysau wedi'u cloi.
- ii Eitemau personol.
- iii Eiddo wedi'i yswirio dan unrhyw bolisi arall.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Estyniad

14. Eiddo wedi'i adael mewn ewyllys

Eiddo materol unrhyw le o fewn y **ffiniau tiriogaethol** a adewir i'ch eglwys **chi** mewn ewyllys yn dilyn **difrod** gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon. Fe fydd sicrwydd yswiriant yn weithredol o ddechrau **eich** diddordeb yn yr eiddo, a bod yr eiddo heb ei yswirio mewn man arall.

O fewn 3 mis i hawl cyfreithiol eiddo o'r fath cael ei drosglwyddo i **chi**, mae'n rhaid i **chi** un ai ein hysbysu **ni** am yr eiddo a threfnu iddo gael ei yswirio'n benodol trwy'r polisi hwn (neu unrhyw bolisi arall gyda ni) neu drefnu cael ei yswirio mewn man arall.

Os ydych chi'n trefnu yswirio eiddo o'r fath gyda **ni**, bydd unrhyw bremiwm ychwanegol sy'n daladwy'n cael ei gyfrifo o'r dyddiad y trosglwyddwyd hawl cyfreithiol yr eiddo i **chi**.

Uchafswm: £5,000 unrhyw un eitem heblaw am **adeiladau** lle bydd yr uchafswm yn £100,000.

15. Offer swyddfa

Offer a pheiriannau swyddfa yn perthyn i'ch gweithwyr chi neu swyddogion eich eglwys neu i'ch **gweithwyr gwirfoddol** chi dros ba rai rydych chi wedi derbyn cyfrifoldeb tra'u bod yn yr **adeiladau** yn yr **eiddo** yn dilyn diofrod gan unrhyw ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £2,500 unrhyw un eitem a £5,000 unrhyw un hawliad.

16. Cerrig beddau a chofgolofnau

Y gost o sicrhau diogelwch unrhyw garreg fedd, cofgolofn neu gofeb yn yr **eiddo** neu mewn mynwent eglwys dan eich rheolaeth chi sydd ddim yn eiddo i chi ond sydd wedi beri'n beryglus yn dilyn **difrod** gan ddigwyddiad yswiriedig sy'n weithredol dan yr adran hon.

Uchafswm: £1,000 unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

17. Olrhain a chael mynediad at ollyngiadau

Y gost o gael hyd i ffynhonnell dŵr neu olew sy'n dianc danciau, cyfarpar neu bibellau gosodedig ac atgyweirio unrhyw **ddifrod** a achoswyd.

Uchafswm: £10,000 unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Cerbydau modur wedi'u trwyddedu ar gyfer eu defnyddio ar y ffordd neu eu hategolion, trelars, carafanau, cychod neu awyrennau.
- ii Eiddo yswiriedig dan unrhyw bolisi arall.

- i Eiddo yswiriedig dan unrhyw bolisi arall.

- i Y gost o atgyweirio'r garreg fedd, cofgolofn neu gofeb.
- ii **Difrod** a achosir trwy wisgo a thraul neu unrhyw achos sy'n gweithredu'n raddol.
- iii Costau sicrhau diogelwch unrhyw garreg fedd, cofgolofn neu gofeb sy'n adenilladwy gan y rhai hynny sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

Amodau neilltuol yn berthnasol i adran 1a - Difrod i eiddo

Dydy'r amodau neilltuol canlynol ddim ond yn berthnasol lle y'i dangosir fel yn weithredol yn **eich rhestr atodol**.

Mae hi'n gysail amod i atebolrwydd bod:

Amod
Neilltuol

1. Larwm tân

Pan fo'r system larwm tân wedi'i gosod mewn adeilad mewn **eiddo**:

- i y system yn cael ei gosod yn unol â'r amodau a gytunir yn ysgrifenedig gynnwys ni ac ni ellir gwneud unrhyw newid neu amrywiad i'r system nag unrhyw newid saerïol i'r **adeiladau** a fyddai'n effeithio ar y system, heb ein caniatâd ysgrifenedig ni;
- ii y system yn cael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr gweithiol llawn ac effeithiol ar bob amser a'i wasanaethu dan gontract cynnal a chadw wedi'i gymeradwyo gynnwys ni a bod rhaid hysbysu'r contractwr cynnal a chadw ar unwaith am unrhyw ddiffyg amlwg yn system y larwm tân neu'i system rybuddio.

2. Diogelwch

Dylai holl ddyfeisiau diogelwch (heblaw am larymau tresmaswyr, gan gynnwys cloeon a bolltiau wedi'u ffitio i **adeiladau** yn yr **eiddo** fod ar waith pryd bynnag y byddwch chi, neu unrhyw berson a awdurdoddir gynnwys chi i fod yn gyfrifol am ddiogelwch yr **eiddo**, ddim yn bresennol.

3. Larwm tresmaswyr

Pan fo system larwm tresmaswyr yn cael ei osod mewn **adeilad** yn yr **eiddo**:

- i mae'n rhaid gosod y system larwm tresmaswyr yn unol â'r amodau a gytunir yn ysgrifenedig gynnwys ni ac ni ellir gwneud unrhyw newid neu amrywiad i'r system nag unrhyw newid saerïol i'r **adeiladau** a fyddai'n effeithio ar y system, heb ein caniatâd ysgrifenedig ni;
- ii mae'n rhaid cynnal a chadw'r system larwm tresmaswyr mewn cyflwr gweithiol llawn ac effeithiol ar bob amser a'i wasanaethu dan gontract cynnal a chadw wedi'i gymeradwyo gynnwys ni a bod rhaid hysbysu'r contractwr cynnal a chadw ar unwaith am unrhyw ddiffyg amlwg yn system y larwm tân neu'i system rybuddio;
- iii mae'n rhaid profi'r system larwm tresmaswyr a'i osod ar waith pryd bynnag y byddwch chi, neu unrhyw berson a awurdoddir gynnwys chi i fod yn gyfrifol am ddiogelwch yr eiddo, ddim yn bresennol yn y rhan honno o'r **eiddo** sydd wedi'i larymu a derbyn bod unrhyw ddyfeisiau canfod a'u cylchedau a gysylltwyd i bwrpas diogelwch parhaus yn weithredol trwy'r amser;
- iv rhaid symud pob allwedd, gan gynnwys allweddi dyblyg, a nodiadau cloeon cyfunrhif, codau diogelwch electronig, llythrennau a rhifau'n berthnasol i'r system larwm tresmaswyr, o'r **eiddo** pryd bynnag fydd neb yn bresennol;
- v mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni ar unwaith am unrhyw rybudd gan yr heddlu neu gwmni diogelwch y bydd neu y gall arwyddion y system larwm tresmaswyr gael eu hanwybyddu.

4. Diogelwch ffenestri

Mae ffenestri sy'n cynnwys gwydr sydd wedi'i liwio neu'i baentio, ffenestri llwyd, gwydr patrymog neu wydr wedi'i ysgythru neu'i engrafio, wedi'u diogelu'n allanol gan daenlenni polycarbonad sy'n gorchuddio'r ffenest yn llwyr.

Cymalau'n berthnasol i adran 1a – Difrod i eiddo

Fe all cymalau 1-8 isod, os y'i dangosir yn **eich rhestr atodol** fel yn weithredol, effeithio ar y swm sydd raid i chi gynnwys yn y **symiau yswiriedig**. Fe ddylid cyfrifo **symiau yswiriedig** i fod yn ddigon i dalu'n llawn am atgyweirio neu adnewyddu **eiddo yswiriedig** ar sail bod yr **eiddo yswiriedig** wedi'u ddinistrio'n llwyr neu'n barhaol ar goll. Mae'n bosib y bydd **symiau yswiriedig** sydd ddim yn ddigonol olygu lleihad mewn unrhyw setliad hawliad yn unol ag unrhyw amod o golled sy'n gymwys. Os ydy amod o golled yn gymwys, fe ddangosir y rhif cymal priodol yn **eich rhestr atodol** fel yn weithredol. Cyfeiriwch at y paragraff ynglŷn â TAW ar dudalen 9 o'r llyfryn polisi hwn. Os ydych chi wedi derbyn prisiad ar **eich** adeiladau a ddarparwyd gynnwys ni fel sail i'ch **swm yswiriedig chi** ar **adeiladau** ac fe ddangosir "V" wrth ochr y **swm yswiriedig** yn **eich rhestr atodol**, ni fydd cymalau 7 ac 8 yn gymwys.

Cymal

1. Cynnwys amrywiol

Mae'r yswiriant ar **gynnwys** yn cynnwys y canlynol:

- i Stampiau Yswiriant Cenedlaethol yn cynnwys stampiau wedi'u gludo i gardiau;
- ii llyfrau o gofnodion cyfrifon a busnes tebyg arall, am y rhai y byddwn ni ddim ond yn talu swm sy'n cynrychioli gwerth y llyfrau fel offer swyddfa ynghyd â chost llafur clerico i'w hail-ysgrifennu;
- iii cofnodion systemau cyfrifiadurol, am y rhai y byddwn ni ddim ond yn talu swm sy'n cynrychioli cost nwyddau traul cyfrifiadurol ynghyd â chost llafur clerico i atgynhyrchu'r cofnodion am swm o ddim mwy na £5,000;
- iv gwinoedd cymun am swm o ddim mwy na £500.

2. Sylfeini

Mae diffiniad o **adeiladau**'n eithrio sylfeini, a ddiffinir eu hunain fel y rhannau hynny o **adeiladau** sy'n is na lefel is-arwyneb llawr isaf yr **adeiladau** neu ei gladdgell, seleri neu ystafelloedd tanddaearol.

3. Costau ychwanegol

Fe wnawn **ni** dalu costau a threuliau a achosir yn rhesymol ac yn angenrheidiol i atgyweirio neu adnewyddu yn dilyn **difrod** yswiriedig wrth:

- i symud rwbél, dymchwel, datgysylltu, cynnal neu ategu;
- ii clirio draeniau, carthffosydd a gwteri sydd un ai'n berchen i chi neu'n gyfrifol amdanyn nhw;
- iii ffioedd rhesymol penseiri, syrffewyr, peirianwyr ymgynghorol a gweithwyr proffesiynol eraill;
- iv cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladau Awdurdodau Lleol neu ofynion statudol eraill, a derbyn bod rhybudd i gydymffurfio heb ei roi cyn y **difrod**.

Wnawn ni ddim talu am:

- i a y gost a achosir wrth symud rwbél o unrhyw le arall heblaw am safle'r eiddo sydd wedi'i ddifrodi a'r cyffiniau a'r ardal gyfagos;
- b costau'n codi o lygru neu halogi eiddo sydd heb ei yswirio gan y polisi hwn;
- ii ffioedd neu unrhyw gostau eraill a achosir wrth baratoi hawliad;
- iii a y gost am waith a ragnodwyd mewn unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd i chi eisoes;
- b rhannau o'r **adeiladau** sydd heb eu difrodi (heblaw sylfeini os y'i cynhwysir yn yr yswiriant hwn – gweler cymal 2) sydd dan y rhannau a ddifrodwyd.

4. Adfer fel newydd

Yn dilyn **difrod** i **adeiladau** neu **gynnwys** yn ôl ein dewis ni:

- i **adeiladau**
fe wnawn ni dalu costau atgyweirio **difrod** i **adeiladau** neu os ydy'r **difrod** y tu hwnt i adfer, y gost o adnewyddu **adeiladau** neu fe wnawn ni drefnu i'r gwaith gael ei wneud ymhob achos i gyflwr cystal â neu'n sylweddol debyg ond nid yn well nac yn fwy estynedig na chyflwr yr **adeiladau** pan yn newydd;
wnawn **ni** ddim didynnu unrhyw swm ar gyfer traul a gwisgo oni bai bod:
 - a yr **adeiladau** mewn cyflwr gwael o ran atgyweirio neu addurno;
 - b oedi dianghenraid o ran gwneud y gwaith;
 - c gwaith atgyweirio neu adnewyddu ddim yn cael ei wneud;wnawn **ni** ddim talu am rannau o'r **adeiladau** sydd heb eu difrodi (heblaw sylfeini os y'i cynhwysir yn yr yswiriant hwn – gweler cymal 2) sydd dan y rhannau a ddifrodwyd.
- ii **cynnwys**
fe wnawn **ni** adnewyddu neu dalu cost adnewyddu fel newydd heblaw eitemau y mae eu hatgyweirio'n ymarferol. Wrth i ni dalu cost atgyweirio, wnawn **ni** ddim ond talu cost atgyweirio cyn belled a bo hynny'n ymarferol neu gost adnewyddiad modern ac fe fyddwn **ni** ddim yn didynnu unrhyw swm ar gyfer traul a gwisgo.

5. Uchafswm taliad hawliad

Yr uchafswm wnawn ni ei dalu am **ddifrod** i **adeiladau** neu **gynnwys**, yn amodol ar golled a hyd at unrhyw derfynau a ddangosir yn y polisi, yr estyniadau yn yr adran hon neu yn **eich rhestr atodol**, ydy'r **swm yswiriedig** a ddangosir yn **eich rhestr atodol** fel wedi'u cymhwyso ar gyfer mynegrifo.

Cymalau'n berthnasol i adran 1a - Difrod i eiddo (parhad)

Cymal

6. Cerfluniau a chofgolofnau

Yr uchafswm wnawn ni ei dalu am **ddifrod** i unrhyw un cerflun, cofgolofn, llun neu eitem werthfawr arall ydy £5,000 oni bai bod eitemau o'r fath wedi'i nodi'n unigol yn eich **rhestr atodol**.

7. Amod tanyswirio (cyfartaledd o 75%)

Mae pob un o'r **symiau yswiriedig** dan yr adran hon o'r polisi yn amodol ar golled ar wahân fel a ganlyn: os ydy'r **swm yswiriedig** priodol ar adeg atgyweirio'r **difrod** neu adnewyddu'r **eiddo yswiriedig** yn llai na 75% o gost adnewyddu'r cyfan o'r **eiddo yswiriedig** fel newydd, yna fe fydd y swm a dalwn ni yn cael ei ostwng yn gymesur â swm y tanyswirio.

8. Amod tanyswirio (cyfartaledd pro rata)

Mae pob un o'r **symiau yswiriedig** dan yr adran hon o'r polisi yn amodol ar golled ar wahân fel a ganlyn: os ydy'r **swm yswiriedig** priodol ar adeg atgyweirio'r **difrod** neu adnewyddu'r **eiddo yswiriedig** yn llai na chost adnewyddu'r cyfan o'r **eiddo yswiriedig** fel newydd, yna fe fydd y swm a dalwn ni yn cael ei ostwng yn gymesur â swm y tanyswirio.

9. Dynodiad

I bwrpas penderfynu a oes unrhyw eitem o eiddo yn gynwysedig un ai gyda'r **adeiladau** neu yn y **cynnwys**, rydyn ni'n cytuno i dderbyn y dynodiad dan ba un mae eiddo o'r fath wedi'i gynnwys yn **eich** llyfrau.

10. Trydanol

Fyddwn ni ddim yn atebol i **ddifrod** i unrhyw ran o unrhyw beirianwaith neu gyfarpar trydanol a achosir wrth iddo bwtgylchedu, gor-redeg, gor-bwysau neu or-gynhesu'i hun, ond os ydy tân yn ymledu i ac yn achosi **difrod i eiddo yswiriedig** arall, fe wnawn ni dalu am ddiffrod o'r fath.

11. Rhent

Os ydy rhent wedi'i gynnwys yn eich **rhestr atodol**, wnawn ni ddim ond talu am rent os ydy'r **adeiladau** neu unrhyw ran ohonyn nhw yn anaddas i fyw ynddo fel canlyniad i **ddifrod** a achosir gan ddigwyddiad yswiriedig. Y swm byddwn ni'n ei dalu bydd y gyfran o'r swm yswiriedig sy'n cyfateb i gyfnod atgyweirio'r **difrod** fel cyfran o'r cyfnod eithaf y mae'r rhent wedi'i yswirio ar ei gyfer.

12. Eiddo sy'n wag neu sydd ddim yn cael ei ddefnyddio

Oni bai y cytunwyd fel arall gynnwys ni yn ysgrifenedig, ni fydd digwyddiadau yswiriedig 4, 6, 7, 12, 13, 14, 15 ac 16 yn weithredol mewn perthynas ag unrhyw **eiddo yswiriedig** mewn **eiddo** sy'n wag neu nad ydy'n cael ei ddefnyddio i weithgareddau'r eglwys nag ar gyfer unrhyw bwrpas arall.

13. Eglwysy sy'n cael eu defnyddio'n anaml

Oni bai y cytunwyd fel arall gynnwys ni yn ysgrifenedig, ni fydd digwyddiadau yswiriedig 4, 6, 7, 12, 13, 14, 15 ac 16 yn weithredol mewn perthynas ag unrhyw **eiddo yswiriedig** mewn **eiddo** sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau eglwys yn llai aml nag unwaith pob mis calendr ac nad ydy'r **eiddo'n** cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall heblaw gweithgareddau arferol eglwys.



Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Torri i lawr

Methiant, toriad, gwriad go iawn neu losgi allan unrhyw ran o'r **peirianwaith** neu unrhyw ran o foeler gwresogi dŵr a'i phibellau, rheiddiaduron a chaloriffyddion cysylltiol wrth gael eu defnyddio'n arferol yn codi o ddiffygion yn y fath **beirianwaith** yn achosi iddo'n ddisymwth i beidio â gweithio a golygu bod yn rhaid ei atgyweirio neu adnewyddu cyn gallu gweithio eto.

Peirianwaith

Pob rhan drydanol neu fecanyddol metal hanfodol i unrhyw beiriant chwythu organ neu bwmp neu fotor gwres canolog a ddisgrifir yn **eich rhestr atodol**.

Yr hyn sy'n gynnwysedig

1. Difrod disymwth ac anrhagweledig i foeleri

Y gost o wneud yn iawn **ddifrod** disymwth ac anrhagweledig i'ch boeleri gwresogi dŵr chi neu'r pibellau, rheiddiaduron a chaloriffyddion sy'n gysylltiedig â nhw.

2. Peirianwaith trydanol a mecanyddol

Y gost o:

- i **ddifrod** i **beirianwaith** a achosir trwy **dorri** i **lawr**;
- ii gwneud yn iawn **ddifrod** disymwth ac anrhagweledig i **beirianwaith**;
- iii **difrod** i'ch **eiddo** chi fel canlyniad uniongyrchol i **ddifrod** a ddisgrifir yn i a ii uchod;

yn digwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant** mewn cysylltiad â boeleri a'r **peirianwaith** trydanol a mecanyddol a restrir yn unigol yn **eich rhestr atodol**.

Yr uchafswm wnawn ni ei dalu am unrhyw un digwyddiad o ddifrod ydy'r **swm yswiriedig** a ddangosir yn **eich rhestr atodol** ar gyfer pob eitem.

Yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig

Difrod a yswiriwyd dan adran1a y polisi hwn a'r canlynol:

- i swm unrhyw dâl dros ben a ddangosir yn **eich rhestr atodol**;
- ii **difrod** oherwydd:
 - a traul a gwisgo, dirywiad graddol neu rwd;
 - b diffygion, craciau, namau neu doriadau sy'n datblygu'n raddol;
 - c crafiadau neu dolciau ar arwynebau wedi'u paentio neu'u sgleinio;
- iii **difrod** a achosir gan weithred fwriadol neu esgeulustod bwriadol gynnoch chi;
- iv **difrod** a achosir gan ac yn digwydd yn ystod:
 - a archwiliadau, gwaith cynnal a chadw, atgyweirio, profion pwysau neu brofi o unrhyw fath arall;
 - b arbrofion yn ymwneud â gosod amodau anarferol;
 - c defnydd uniongyrchol o declyn;
- v pibellau hyblyg, gyriant neu geblau cysylltiol;
- vi bylbiau, falfiau, elfennau trydanol, celloedd ffoto-electrig, transistorau a chyfarpar tebyg;
- vii dyfeisiau diogelwch ac amddiffyn oherwydd eu swyddogaeth;
- viii batris;
- ix y gost o wneud yn iawn unrhyw nam sy'n datblygu'n raddol neu draul a gwisgo;
- x colli defnydd neu unrhyw golled ganlyniadol arall.



Yr hyn sy'n gynwysedig

Os, yn ystod **cyfnod yswiriant**, bod eitem o **eiddo yswiriedig** a ddisgrifir yn benodol ar y **rhestr atodol** yn cael ei **ddifrodi**, tra ei fod unrhyw le o fewn y **ffiniau tiriogaethol** neu unrhyw le arall yn y byd, fe wnawn ni:

- i adnewyddu'r eiddo; neu
- ii fe wnawn ni dalu cost adnewyddu fel newydd; neu
- iii fe wnawn ni dalu cost atgyweirio eitemau y mae modd eu hatgyweirio'n economaidd.

Fyddwn ni ddim yn didynnu unrhyw swm ar gyfer traul a gwisgo.

Y mwyafswm wnawn ni dalu, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a ddangosir yn y polisi neu yn **eich rhestr atodol**, ydy'r **swm yswiriedig** a ddangosir yn eich rhestr atodol ar gyfer pob eitem a ddisgrifiwyd yn benodol fel y cymhwyswyd i bwrpas mynegrifol.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Swm unrhyw **dâl-dros-ben** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**.
- ii Cost cynnal a chadw.
- iii **Difrod** a achsoir gan draul a gwisgo, dibrisiad, amodau atmosfferig neu hinsoddol (heblaw storm neu lifogydd), llygredd neu halogiad, rhwd, llwch, pydredd, ffwng, chwilod, fermin neu unrhyw achos graddol.
- iv **Difrod** a achosir gan y broses o lanhau, lliwio, atgyweirio neu adfer.
- v Torri i lawr, yn fecanyddol neu'n drydanol.
- vi Atafaeliad neu gadw trwy orchymyn unrhyw awdurdod llywodraeth, awdurdod neu heddlu.
- vii Torri falfiau, bylbiau neu diwbiau trydanol oni bai y difrodir y cyfarpar sy'n eu hamgáu ar yr un pryd.
- viii **Difrod** trwy ladrad i eiddo a adewir mewn cerbyd heb neb yno oni bai bod yr eiddo wedi'i guddio o'r golwg a bod yr holl ffenestri a'r to haul wedi'u cau'n gadarn a bod y bŵt a'r holl ddrysau wedi'u cloi.
- ix Unrhyw werth yn gysylltiedig ag eitem trwy reswm ei hynafiaeth oni bai bod cytundeb ymlaen llaw rhyngoch **chi a ni**.



Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Arian

Darnau arian, papur arian banc neu gyfredol, sieciau (heblaw sieciau gwag wedi'u harwyddo, boed nhw wedi'u croesi ai peidio) archebion post, archebion arian, gwarantau arian, drafftiau banc wedi'u croesi, stampiau heb eu defnyddio, sieciau teithio, stampiau a thystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, Bondiau Premiwm, stampiau Yswiriant Cenedlaethol a chardiau Yswiriant Cenedlaethol wedi'u stampio, talebau gwerthiant cardiau credyd a debyd, archebion taliadau Giro, talebau pryniant Treth Ar Werth, talebau cinio, talebau adbrynu elusennau a defnyddwyr, tocynnau anrheg a chredyd heb ei ddefnyddio ar beiriannau ffrancio post sydd yn perthyn i gyd i **chi** neu eich cyfrifoldeb **chi**.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Colli **arian** yn digwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant**.

Yr uchafswm wnawn **ni** ei dalu am unrhyw un achos o golli **arian** yn codi o unrhyw un achos ydy'r **terfyn atebolrwydd** ar gyfer pob digwyddiad unigol a ddangosir yn y tabl isod.

Fe **wnawn ni** hefyd dalu am **ddifrod** i:

- i unrhyw sêff, ystafell ddiogel, blwch casglu, bag cludo arian, belt neu wasgod a ddefnyddir i gynnwys neu gludo **eich arian**;
- ii ddillad ac eitemau personol sy'n perthyn i **chi** neu unrhyw un o'ch swyddogion eglwys **chi**, hyd at £1,000 y person yn codi mewn perthynas â lladrad neu ymgais at ladrata **eich arian**.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Swm unrhyw **dâl dros ben** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**.
- ii **Arian** sydd ddim yn perthyn i chi neu ddim yn gyfrifoldeb arnoch **chi**.
- iii Colled o gerbyd heb neb yno.
- iv Colled oherwydd twyll neu gamgyfrifo oni bai y'i darganfyddir o fewn 60 niwrnod i'r digwyddiad.
- v Colled oherwydd camgymeriadau clericio neu gyfrifo, dibisiad mewn gwerth, prinder anesboniadwy, sieciau heb eu hanrhydeddu, trafodion cardiau credyd twyllodrus neu'r defnydd o **arian** ffug.
- vi Colled yn codi oddi allan i'r **ffiniau tiriogaethol**.
- vii Colled o beiriannau difyrru neu werthu.
- viii Colled fel canlyniad i drafodion busnes.
- ix Colli **arian** wrth gael ei gludo trwy'r post oni bai gyda chludiad arbennig.

	Digwyddiad yswiriedig		Uchafswm
Unrhyw golli arian :			
1.	i yn yr eiddo heb fod mewn diogell ond dan warchodaeth ac ym mhresenoldeb eich swyddogion eglwys;	£3,500	unrhyw golled unigol
	ii mewn diogell dan glo yn yr eiddo ;	£3,500	unrhyw golled unigol
	iii yn cael ei gludo'n uniongyrchol o'r eiddo at fanc neu gartref swyddog eglwys, neu'n cael ei gludo'n uniongyrchol o fanc neu gartref swyddog eglwys at yr eiddo ;	£3,500	unrhyw golled unigol
	iv yng nghartref swyddog eglwys neu mewn diogell nos banc nes bod y banc yn derbyn cyfrifoldeb;	£3,500	unrhyw golled unigol
	v dan unrhyw amgylchiadau eraill.	£500	unrhyw golled unigol
2.	Camddefnydd, twyll neu gyfrifo ffals gan swyddogion eglwys a ddarganfyddir o fewn 60 niwrnod i'r digwyddiad.	£10,000 £5,000	unrhyw gyfnod yswiriant unigol fel cyfanswm unrhyw gyfnod yswiriant unigol mewn perthynas ag unrhyw berson unigol

Estyniad sy'n berthnasol i adran 3 -Arian

Rhif Estyniad

1. Digwyddiadau Arbennig

Ar gyfer y cyfnod o 2 ddiwrnod cyn, yn ystod ac am 7 niwrnod yn dilyn garddwest eglwys neu achlysur codi arian, fe ddyblir **terfynau atebolrwydd** 1i, 1ii, 1iii ac 1iv i £7,000.

Amodau neilltuol sy'n berthnasol i adran 3 - Arian

Dydy'r amodau canlynol ddim ond yn berthnasol lle y'i dangosir yn weithredol yn **eich rhestr atodol**.

Mae hi'n rhag-amod i atebolrwydd bod:

Amod
Neilltuol

1. Allweddi

Mae'n rhaid i **chi**:

- i symud o'ch **eiddo** chi pob allwedd ac allweddi dyblyg i sêffs neu larymau tresmaswyr pryd bynnag y bo'r **eiddo** ar gau neu'n cael eu gadael heb neb yno;
- ii gadw allweddi o'r fath mewn man diogel oddi wrth sêffs, ystafelloedd diogel neu systemau rheoli larymau tresmaswyr pryd bynnag y bo'r **eiddo** ar agor neu rywun yno.

2. Amddiffyniad

Mae'n rhaid i **chi**:

- i osod ar waith, pryd bynnag y bo'r **eiddo** ar gau, pob un o'r amddiffyniadau hynny sydd un ai'n bodoli'n barod ar ddechrau'r yswiriant hwn neu y bu i ni a chi gytuno arnyn nhw'n ddiweddarach;
- ii gadw amddiffyniadau o'r fath mewn grym a'u cynnal a'u cadw'n iawn;
- iii beidio newid na symud amddiffyniadau y bu i **ni** a **chi** gytuno arnyn nhw heb **ein** caniatâd ysgrifenedig.

3. Cofnodion

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion manwl gywir o'r **arian** rydych **chi**'n gyfrifol amdano.

4. Hebryngwyr

Os ydy swm yr **arian** sy'n cael ei gludo'n fwy na £3,500, mae'n rhaid iddo fod yng nghwmni o leiaf 2 berson sy'n iach yn gorfforol.



Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Niwed corfforol damweiniol

Niwed neu anafiadau corfforol a achosir yn uniongyrchol ar ddamwain neu'n anorfod yn agored i'r elfennau naturiol sydd, o fewn 104 wythnos o ddyddiad y digwyddiad neu fod yn agored i'r elfennau, yn achosi marwolaeth neu anabledd y **person yswiriedig**.

Cyfnod indemniad

Y cyfnod lle caiff eich gweithgareddau arferol eu heffeithio yn dilyn **difrod** i **eiddo yswiriedig** hyd at gyfnod o 24 mis ar y mwyaf.

Incwm

Yr arian a delir i **chi** o'r holl ffynonellau yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i gasgliadau eglwys, rhoddion, rhent a gweithgareddau codi arian.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Fe wnawn **ni** dalu i **chi**, yn amodol ar delerau'r adran hon, am golled yn ystod y **cyfnod indemniad** fel canlyniad i ymyrraeth ar neu darfu ar y gweithgareddau arferol sy'n digwydd yn yr **eiddo** yn dilyn **difrod** gan ddigwyddiad yswiriedig rydyn **ni** wedi derbyn hawliad amdano dan un ai adran 1a neu adran 2 o'r polisi hwn.

Lle na wneir taliad dan adran 1a neu adran 2 dim ond oherwydd bod y tâl-dros-ben yn fwy na chost y **difrod**, fe wnawn **ni** barhau i dderbyn hawliad dan yr adran hon.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Wnawn ni ddim talu am:

- i swm y **tâl-dros-ben** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**;
- ii golled lle mae oedi afresymol neu ddianghenraid ar **eich** rhan i atgyweirio neu adnewyddu'r eiddo.

Mae'r sicrwydd yswiriant yn cynnwys

Yr hyn sy'n gynwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

1. Colli incwm

Y gwahaniaeth rhwng yr **incwm** fasech **chi** wedi'i dderbyn yn ystod y **cyfnod indemniad** pen a bai unrhyw **ddifrod** a'r **incwm** a dderbynioch chi mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fe wnawn ni gymryd i ystyriaeth, wrth gyfrifo'r taliad:

- i unrhyw arbedion sy'n daladwy o'r **incwm** sy'n dod i ben neu'n lleihau fel canlyniad i'r difrod yn ystod y **cyfnod indemniad**;
- ii unrhyw **incwm rydych** yn ei ennill trwy gynnal **eich** gweithgareddau mewn man arall yn ystod y **cyfnod indemniad**.

2. Gwariant Ychwanegol

Treuliau ychwanegol a achosir yn angenrheidiol ac yn rhesymol **gennyh** o fewn **ein** cytundeb yn ystod y **cyfnod indemniad** er mwyn lleihau ymyrraeth neu darfu ar eich gweithgareddau arferol, yn cynnwys:

- i cost symud i ac o leoliad dros dro a'r rhent, trethi a threthi eraill ychwanegol i leoliad o'r fath;
- ii treuliau a achosir i gyweirio lleoliad dros dro er mwyn ei wneud yn addas i'ch defnydd;
- iii cost ychwanegol gyda golwg ar oleuo, gwresogi a dŵr;
- iv cost staff ychwanegol ac oriau ychwanegol a lwfansau i'r staff presennol.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Yr hyn sy'n gynwysedig

Y mwyaf wnawn **ni** dalu yn dilyn pob digwyddiad o **ddifrod** ydy:

- i am un ai gollu incwm neu wariant ychwanegol neu gyfuniad o'r ddau – £75,000;
- ii dan estyniad 1 yr adran hon £75,000;
- iii dan estyniad 3 yr adran hon £75,000.

Wnawn ni ddim talu mwy na £75,000 fel cyfanswm dan i, ii a iii uchod mewn perthynas ag un digwyddiad unigol o **ddifrod** oni bai y'i nodwyd yn **eich rhestr atodol**.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Estyniadau sy'n berthnasol i adran 4 – Colli incwm

Yr hyn sy'n gynwysedig

Fe wnawn **ni** ymestyn y sicrwydd yswiriant dan yr adran hon i dalu am:

Estyniad

1. Atal mynediad

Colledion yn codi lle bo defnydd **eich eiddo**'n cael ei rwystro neu'i atal gan **ddifrod** i eiddo cyfagos, ac y byddai difrod o'r fath yn ffurfio hawliad derbyniol dan adran 1a o'r polisi hwn, fel petai'r **difrod** wedi digwydd yn **eich eiddo chi**.

2. Colli ffôn, trydan, nwy neu ddŵr

Colledion yn dilyn methiant damweiniol:

- i y system ffôn sy'n gwasanaethu'r **eiddo**;
- ii y cyflenwadau trydan, nwy neu ddŵr yn y pwynt cyswllt i'r **eiddo**.

Uchafswm: £10,000 unrhyw hawliad unigol.

3. Digwyddiadau yn yr eiddo

Colledion fel canlyniad i:

- i gau'r **eiddo** trwy orchymyn yr awdurdod lleol neu unrhyw awdurdod statudol oherwydd fermin neu ddraeniau diffygiol neu drefniadau iechydol eraill yn yr **eiddo**;
- ii clefydau dynol heintus neu lynol, hysbysadwy yn, neu o fewn radiws o 10 milltir o'r, **eiddo**;
- iii llofruddiaeth, hunanladdiad neu wenwyn bwyd yn yr **eiddo**.

4. Cwblhau gwaith gwirfoddol

Cost cyflogi contractwr i gwblhau mân waith cynnal a chadw, atgyweirio neu ailaddurno yn yr **eiddo** pan nad oes modd i'r gwaith, wedi ei ddechrau gan **weithiwr gwirfoddol**, gael ei gwblhau o fewn yr amser penodedig gan i'r **gweithiwr gwirfoddol** dderbyn **niwed corfforol damweiniol** sy'n eu rhwystro rhag gweithio.

Uchafswm: £1,000 ar unrhyw hawliad unigol.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Unrhyw fethiant o lai na 30 munud.
- ii Methiant oherwydd gweithred fwriadol yr awdurdodau ffôn neu gyflenwadau neu fel canlyniad i streic neu gamau diwydiannol eraill.

- i **Niwed corfforol damweiniol** a achosir heblaw wrth weithredu dan eich awdurdod ac yn ymhél â gwaith neu weithgareddau eich eglwys.
- ii **Niwed corfforol damweiniol** fel canlyniad i unrhyw achos a restrir yn "yr hyn sydd ddim yn gynwysedig" yn adran 6 - damwain bersonol y polisi hwn.



Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Gweithiwr

- i Personau dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth gyda **chi**.
- ii Personau dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth gyda rhyw gyflogwr arall ac sydd wedi'i hurio neu'u benthyg i **chi**.
- iii Meistri llafur a phersonau a gyflenwir ganddyn nhw.
- iv Personau a gyflogir gan isgontractwyr llafur yn unig.
- v Personau hunangyflogedig sy'n perfformio gwaith o fath a berfformir fel arfer dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth gyda chi, tra'n gweithio i **chi** mewn cysylltiad â gwaith neu weithgareddau eich eglwys.

Digwyddiad

Unrhyw un digwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau yn codi allan o neu a briodolir i un ffynhonnell neu achos gwreiddiol.

Taith

O'r foment o gamu ar gludiant i fynd i osodiad allan ar y môr i'r foment o gamu oddi ar gludiant ar dir sych wrth ddychwelyd.

Gweithred anghyfiawn

Unrhyw dor-ymdiriedaeth gwir neu honedig, tordyletswydd, esgeulustod, camgymeriad, camddatganiad, datganiad camarweiniol, enllib, athrod, tor-cytundeb, hepgor, tor-gwarant awdurdod neu weithred arall a gyflawnir neu a fentrir ar gam gan ymddiriedolwyr neu swyddogion **eich** eglwys neu unrhyw fater a hawlr yn eu herbyn am yr unig reswm eu bod yn gweithredu fel ymddiriedolwr neu swyddog.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Fe wnawn ni **eich** indemnio yn amodol ar **uchafswm yr indemniad** yn erbyn pob swm y dewch chi'n atebol yn gyfreithiol i'w talu fel iawn a holl gostau a threuliau eraill fel canlyniad i:

Eitem

1. Atebolrwydd cyflogwyr

Anaf corfforol neu farwolaeth, salwch neu glefyd i **weithwyr** yn digwydd yn ystod y cyfnod yswiriant o fewn y **ffiniau tiriogaethol** mewn cysylltiad â gwaith a gweithgareddau **eich** eglwys.

2. Atebolrwydd cyhoeddus

- i Niwed corfforol damweiniol i neu farwolaeth, salwch neu glefyd personau hebaw am **weithwyr**;
 - ii Colli'n ddamweiniol neu **ddifrod** i eiddo sydd ddim yn perthyn i **chi**;
 - iii Rhwystro damweiniol, tresmasu, ymyrraeth sy'n boendod i unrhyw hawl i dramwyo, awyr, goleuni, dŵr neu hawddfrait arall;
- yn digwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant** o fewn y **ffiniau tiriogaethol** mewn cysylltiad â gwaith a gweithgareddau **eich** eglwys.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Atebolrwydd sydd angen ei yswirio dan ddarpariaethau yswiriant car gorfodol y Deddfau Traffig Ffyrdd.

Atebolrwydd yn codi o:

- i werthu neu gyflenwi nwyddau;
- ii colli neu **ddifrod** i eiddo sy'n perthyn i **chi** neu yn eich cadw neu dan eich rheolaeth ond dydy'r eithriad hon ddim yn berthnasol i:
 - a eiddo **gweithwyr cyflogedig** neu **weithwyr gwirfoddol**;
 - b **eiddo** sy'n cael ei rentu, llogi, lesio neu ddefnyddio gynnoch chi ar gyfer gwaith neu weithgareddau **eich** eglwys, neu ym mha un rydych **chi**'n ymgymryd â gwaith mewn cysylltiad â'r eglwys a chymryd nad ydy atebolrwydd o'r fath yn codi'n uniongyrchol dan delerau unrhyw gontract neu gytundeb;
- iii perchnogaeth, meddiant neu ddefnydd (heblaw y darperir ar ei gyfer dan estyniad 3) gynnoch chi neu ar **eich** rhan o:
 - a unrhyw gerbyd neu beiriant neu beirianwaith sy'n â'r gallu i fod yn hunanyredig neu sydd ynghlwm i gerbyd sy'n hunanyrru ac a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle mae Deddfau Traffig Ffordd yn berthnasol;
 - b unrhyw gerbyd neu beiriant neu beirianwaith sydd wedi'i yswirio er **eich** budd chi dan unrhyw fath o bolisi yswiriant car;
 - c unrhyw gwch neu gerbyd dŵr ond bydd yr eithriad hwn ddim yn berthnasol i gyhod sy'n cael eu gyrru â llaw ac sy'n llai na 5 metr o hyd tra'u bod yn cael eu rhedeg ar ddyfrffyrdd mewndirol;
 - d unrhyw awyren neu ddyfais awyrol neu hofrenfad;
- iv cwnsela, cyngor, cynllunio neu ragfanylion, heblaw y'i cytunir fel arall gynnon **ni** yn ysgrifenedig.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Eitem

3. Atebolrwydd cynnyrch

- i Niwed corfforol damweiniol i neu farwolaeth, salwch neu glefyd personau heblaw am **weithwyr**;
- ii Colli'n ddamweiniol neu **ddifrod** i eiddo sydd ddim yn perthyn i **chi**;
yn digwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant** o fewn y **ffiniau tiriogaethol** a achosir gan unrhyw nwydd, eitem neu beth (gan gynnwys eu labelu a chynhwysyddion), a werthir, cyflenwir, gosodir, codir, atgyweirir, newidir neu drinnir gynnoch **chi** a bellach ddim dan eich gofal na'ch rheolaeth.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Trwsio, adnewyddu neu adfer unrhyw gynnyrch a werthir, cyflenwir neu a weithir gynnoch **chi** sy'n peri hawliad am gost cywiro gwaith diffygiol.
- ii Atebolrwydd mewn cysylltiad â **difrod** i unrhyw nwydd, eitem neu beth (gan gynnwys ei gynhwysydd) a werthir, cyflenwir neu a weithir gynnoch **chi** a achosir gan ei ddiffyg neu ei anaddasrwydd i'r pwrpas y'i bwriadwyd.
- iii Atebolrwydd yn codi o weithgareddau masnachol heblaw am fasarau, garddwesti a gwerthiant gwaith a mân-werthu lluniaeth, bwyd, llyfrau, cofroddion a'u tebyg yn yr **eiddo**.

Uchafsymiau indemniad

Oni bai y'i nodir mewn man arall yn **eich rhestr atodol**, ni fydd swm **ein** hatebolrwydd am iawndal yn fwy na:

Uchafswm indemniad		
1. Atebolrwydd cyflogwyr	£10,000,000	yn cynnwys holl gostau a threuliau iawndal unrhyw un digwyddiad unigol.
2. Atebolrwydd cyhoeddus	£5,000,000	unrhyw un digwyddiad unigol.
3. Atebolrwydd cynnyrch	£5,000,000	fel cyfanswm mewn unrhyw un cyfnod yswiriant.

Yn ychwanegol at iawndal, fe wnawn ni dalu mewn perthynas â 2. atebolrwydd cyhoeddus a 3. atebolrwydd cynnyrch:

- i costau cyfreithiol sy'n adenilladwy gan unrhyw hawliwr gynnoch **chi**;
- ii cost cynrychiolaeth gyfreithiol mewn:
 - a unrhyw gwest crwner neu ymchwiliad i ddamwain angheuol;
 - b gweithrediadau mewn unrhyw lys awdurdod diannod;sy'n codi gyda'n caniatâd ysgrifenedig **ni** ac yn codi o unrhyw dorri honedig ar ddyletswydd statudol sy'n ymwneud â digwyddiad a all fod yn destun indemniad dan yr adran hon;
- iii costau a threuliau eraill sy'n codi gyda'n caniatâd ysgrifenedig **ni**.

Fe wnawn **ni** dalu costau ychwanegol yn i, ii a iii uchod yn ychwanegol at uchafswm yr iawndal sy'n daladwy am atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cynnyrch. Ar gyfer atebolrwydd cyflogwyr, we wnawn **ni** barhau i dalu am gostau ychwanegol o'r fath a bod y cyfanswm sy'n daladwy am iawndal a chostau o'r fath yn disgyn o fewn **uchafswm indemniad**.

Os ydyn ni yn atebol i indemnio mwy nag un parti, bydd yr uchafswm wnawn **ni** ei dalu am iawndal i bob un parti o'r fath, gan eich cynnwys chi, ddim yn fwy na'r **uchafswm indemniad**.

Estyniadau sy'n berthnasol i adran 5 - Atebolrwydd

Yr hyn sy'n gynnwysedig

Fe wnawn ni ymestyn y sicrwydd yswiriant dan yr adran hon i dalu am:

Estyniad

1. Indemniad i bersonau eraill

Ar **eich** cais fe wnawn **ni** indemnio'r canlynol mewn perthynas ag atebolrwydd a achosir ganddyn nhw am yr hyn y basech **chi** wedi'ch indemnio petai'r hawliad wedi'i wneud yn eich herbyn ac nid:

- i unrhyw berson yn gweithredu dan eich awdurdod ac ar eich rhan yn cynnwys unrhyw **weithiwr cyflogedig** neu **weithiwr gwirfoddol**;
- ii unrhyw bennaeth (boed hynny'n berson, cwmni neu awdurdod lleol) gyda'r hwn rydych chi wedi ymrwymo i gontract am waith neu wasanaethau, ond dim ond cyn belled ag mae'r contract rhyngddoch **chi** a'r pennaeth yn ei ofyn.

2. Deddf Eiddo Diffygiol

Mae'r indemniad a ddarperir dan 2. atebolrwydd cyhoeddus yn ymestyn i unrhyw atebolrwydd cyfreithiol a achosir yn rhinwedd adran 3 o Ddeddf Eiddo Diffygiol 1972 neu adran 5 Gorchymyn Eiddo Diffygiol (Gogledd Iwerddon) 1975 mewn cysylltiad ag **eiddo** a gafodd ei waredu gynnwch **chi** ac y buoch **chi** yn eu meddiannu i bwrpas gwaith neu weithgareddau eich eglwys, a bod y niwed neu'r **difrod** yn digwydd o fewn cyfnod o saith mlynedd o ddyddiad canslo neu ddod i ben yr adran hon.

3. Atebolrwydd digwyddiadol moduron

Mae'r indemniad a ddarperir yn 2. atebolrwydd cyhoeddus yn ymestyn i unrhyw atebolrwydd cyfreithiol a achosir gynnwch **chi** a neb arall yn codi o ddefnydd, mewn cysylltiad â gwaith neu weithgareddau **eich** eglwys, cerbydau modur sydd ddim yn eiddo i **chi** nac wedi'u darparu gynnwch **chi**.

4. Traws atebolrwydd

Lle ceir achos lle dangosir mwy nag un parti yn **eich rhestr atodol** fel yr **yswiriedig**, yna fe wnawn **ni** drin pob parti fel yr **yswiriedig** fel pe baen **ni** wedi arwyddo polisi ar wahân i bob un ac fe gytunwn **ni** i roi heibio ein hawliau amnewid neu gamau y gall bod gynnwch **ni** neu wedi ennill yn erbyn unrhyw un o'r partiön yn codi o unrhyw ddigwyddiad y caniatwyd hawliad iddo dan yr adran hon o'r polisi.

Bydd dim yn yr estyniad hwn yn cynyddu ein hatebolrwydd i dalu mwy na'r **uchafswm indemniad**.

Yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig

Fyddwn ni ddim yn atebol am neu dalu am:

- i Atebolrwydd lle darperir indemniad gan unrhyw yswiriant arall.

- i Cost adfer unrhyw ddiffyg neu ddiffyg honedig yn yr **eiddo** a waredwyd.
- ii Atebolrwydd mewn perthynas â'r hyn y mae ichi hawl indemniad gan unrhyw ffynhonnell arall.

- i Atebolrwydd yn codi o golli neu **ddifrod** i'r cerbyd ei hun neu eiddo sy'n cael ei gludo yn y cerbyd.
- ii Atebolrwydd yn codi o ddefnydd y cerbyd wrth gael ei:
 - a yrru gynnwch chi;
 - b yrru gan berson sydd, hyd y gwyddoch chi neu y gŵyr **eich** cynrychiolydd, ddim yn dal trwydded yrru oni bai bod y person hwnnw wedi dal un a heb ei wahardd rhag dal un.
- iii Unrhyw ddigwyddiad lle mae gynnwch chi hawl i indemniad dan unrhyw yswiriant arall.
- iv Atebolrwydd yn codi o ddefnydd mewn man arall heblaw am y **ffiniau tiriogaethol**.
- v Atebolrwydd yn codi o gymryd rhan mewn rasio, tuthio, treialon dibynadwyedd neu brofi cyflymder.

- i Atebolrwydd am yr hyn y caniateir neu y byddai indemniad yn cael ei ganiatáu dan unrhyw bolisi arall sy'n rhoi yswiriant atebolrwydd cyflogwyr pen a bai'r adran hon o'r polisi mewn grym.
- ii Atebolrwydd am **ddifrod** i **eiddo** a'u cynnwys sy'n rhannu meddiannaeth rhwng dau neu fwy o'r partiön a ddangosir yn **eich rhestr atodol** fel yr **yswiriedig**.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Estyniad

5. Clochyddion

Pan fo **eich** clochyddion yn:

- i canu neu ofalu am y clychau mewn unrhyw eglwys neu glochdy;
 - ii teithio i neu o eglwys neu glochdy i gymryd rhan mewn neu ymarfer canu cloch;
- Fe** wnawn ni:
- a eu hystyried fel **gweithwyr** i bwrpas 1. atebolwydd cyflogwyr;
 - b eu trin fel **yswiriedig** i bwrpas 2. atebolwydd cyhoeddus.

Bydd dim yn yr estyniad hwn yn cynyddu **ein** hatebolwydd i dalu mwy na'r **uchafswm indemniad**.

6. Indemniad Cyhoeddwr

Mae'r yswiriant hwn yn ymwneud yn unig â hawliadau a wneir yn eich erbyn **chi** yn ystod y **cyfnod yswiriant**.

Yn achos unrhyw hawliadau a wneir yn eich erbyn **chi** wedi'r dyddiad ôl-weithredol a ddangosir yn **eich rhestr atodol** ac a hysbyswyd i ni yn ystod y **cyfnod yswiriant** am honiadau o:

- i enllib;
 - ii athrod hawl ar nwyddau;
 - iii twyll neu ffalsrwydd niweidiol;
 - iv honni neu dorri nod masnachu, cynllun cofrestredig, hawlfraint neu hawl patent;
- yn codi o ddeunydd a gynhwysir yn **eich** cylchgrawn eglwys, cylchlythyr neu **eich** cyhoeddiadau eraill, **fe** wnawn ni **eich** indemnio gyda golwg ar holl symiau y byddwch **chi**'n gyfreithiol atebol i'w talu fel iawndal a chostau a threuliau hawlwyr.

Uchafswm: £100,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

Amod neilltuol yn perthyn i estyniad 6

Oni bai bod Cwnsler y Frenhines neu awdurdod tebyg (i'w gytuno ar y cyd gynnoch **chi** a gynnon **ni**) yn cynghori y gellir ei wrthwynebu gyda thebygolrwydd o lwyddo, fe wnewch **chi** gynnig unrhyw ymddiheuriadau a chynnig unrhyw iawn y mae'r cwnsler neu'r awdurdod yn ei gynghori.

Yn ychwanegol at hyn, o dderbyn cyngor y cwnsler neu'r awdurdod, mae'n rhaid i **chi** gytuno i dynnu'n ôl y deunydd tramgwyddus neu gyhoeddi unrhyw atodiad neu newid angenrheidiol i sicrhau bod yr hawliad neu'r gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl.

Cyfeiriwch at ein hamodau hawliadau - eich dyletswyddau i ac amodau hawliadau-ein hawliau iii ar dudalen 14 o'r polisi hwn.

7. Cyfleusterau arlwyo a mân-werthiant

Mae'r indemniad a ddarperir trwy 1. atebolwydd cyflogwyr, 2. atebolwydd cyhoeddus a 3. atebolwydd cynnyrch, yn ymestyn i gynnwys **eich** atebolwydd cyfreithiol sy'n codi o'r ffaith **eich** bod yn darparu neu'n mân-werthu yn eich **eiddo**:

- i bwyd, diod a lluniaeth;
- ii eitemau crefyddol, gweithiau celfyddydol, deunydd printiedig, cofroddion, gwaith crefft, recordiadau sain a fideo, a'u tebyg.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Atebolwydd yn codi o unrhyw ddigwyddiad mewn cysylltiad ag eglwys neu glochdy y tu allan i'r **ffiniau tiriogaethol**.

- i Dirwyon, cosbau, iawndal cosbol.
- ii Atebolwydd tybiedig trwy gytundeb oni bai y byddai atebolwydd ynghlwm heb gytundeb o'r fath.
- iii Enllib, athrod neu dorcyfraith troseddol neu fwriadol.
- iv Unrhyw hawliad a ddygir trwy **eich** malais neu elyniaeth bersonol tuag at hawliwr.
- v Unrhyw gamau cyfreithiol a ddygir yn eich erbyn **chi** mewn unrhyw lys barn y tu allan i'r **ffiniau tiriogaethol**.
- vi Canlyniadau unrhyw amgylchiadau sy'n wybyddus i chi ar ddechrau'r sicrwydd yswiriant hwn a all greu hawliad.
- vii Atebolwydd am unrhyw hawliad a wneir yn **eich** erbyn sy'n codi o unrhyw weithred a gyflawnwyd neu yr honnir y'i cyflawnwyd cyn y dyddiad ôl-weithredol a ddangosir yn **eich rhestr atodol**.

- i Atebolwydd lle mae indemniad yn cael ei ddarparu gan unrhyw yswiriant arall.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Estyniad

8. Estyniad tramor

Mae'r sicrwydd yswiriant a ddarperir gan yr adran hon wedi'i ymestyn, yn amodol ar ei delerau a'i amodau, i unrhyw le yn y byd mewn perthynas â:

- i chynnyrch a gyflenwir gan;
 - ii ymweliadau dros dro a awdurdodir gynnoch **chi** ac a ymgymerir gynnoch **chi**, **eich gweithwyr cyflogedig** neu **eich gweithwyr gwirfoddol** y tu allan, a derbyn bod personau o'r fath fel arfer yn byw yn;
- y **ffiniau tiriogaethol** a derbyn y bydd uchafsymiau indemniad ar gyfer 1. atebolrwydd cyflogwyr, 2. atebolrwydd cyhoeddus a 3. atebolrwydd cynnyrch yn cynnwys yr holl iawndal, costau a threuliau.

9. Indemniad ymddiriedolwyr a swyddogion

Mae'r yswiriant hwn yn ymwneud yn unig â hawliadau a wnaed yn **eich** erbyn yn ystod y **cyfnod yswiriant** wedi'r dyddiad ôl-weithredol a ddangosir yn **eich rhestr atodol** ac a hysbyswyd i **ni** yn ystod y **cyfnod yswiriant**.

- i Fe wnawn **ni** dalu ar ran ymddiriedolwr neu swyddog eich eglwys hyd at £100,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant** am holl symiau y dôn nhw yn gyfreithiol atebol i'w talu fel iawndal a chostau a threuliau oherwydd **gweithred anghyfiawn** a gyflawnir gynnon nhw yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwr neu swyddog eich eglwys.
- ii Fe wnawn ni dalu ar ran eich eglwys hyd at £100,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant** am holl symiau y daw eich eglwys yn gyfreithiol atebol i'w dalu fel iawndal a chostau a threuliau trwy **weithred anghyfiawn** a gyflawnir gan ymddiriedolwr neu swyddog **eich** eglwys yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwr neu swyddog **eich** eglwys, ond dim pan fydd gofyn i neu ganiatâd gan eich eglwys i indemnio'r ymddiriedolwr neu'r swyddog oherwydd y gyfraith, neu oherwydd unrhyw gymal indemniad yng ngweithredoedd yr ymddiriedolaeth, cyfansoddiad neu siarter **eich** eglwys.

Os ydyn **ni'n** atebol i indemnio mwy nag un parti, ni fydd yr uchafswm wnawn ni ei dalu am iawndal, costau a threuliau i bob parti o'r fath yn fwy na £100,000 fel cyfanswm mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant** am hawliadau'n codi dan i a ii uchod oni bai y'i dangosir fel arall fel **arnodiad** yn **eich rhestr atodol**.

- iii Fe wnawn **ni eich** indemnio hyd at £25,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant** yn erbyn colli **eich** arian neu eiddo diriaethol sy'n perthyn i chi neu am yr hyn **rydych** yn gyfreithiol gyfrifol amdano y bu i chi, yn ystod y **cyfnod yswiriant**, ddarganfod yn gyntaf gafodd ei achosi fel canlyniad i unrhyw weithred anonest, twyllodrus, troseddol neu faleisus gan ymddiriedolwr neu swyddog, gyda'r bwriad i ennill budd personol amhriodol iddyn nhw'u hunain neu i unrhyw barti arall.
- iv Fe wnawn **ni eich** indemnio hyd at £25,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant** yn erbyn costau a threuliau a hysbysir i ni yn ystod y **cyfnod yswiriant** a achosir gan **eich** eglwys wrth adnewyddu neu adfer unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig â rheolaeth gwaith **eich** eglwys a gafodd ei ddinistrio, difrodi, ei golli neu'i gamleoli ac sydd, er gwaethaf chwilio taer, heb ddod i'r golwg.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

- i Atebolrwydd lle mae indemniad yn cael ei ddarparu gan unrhyw yswiriant arall.
- ii Atebolrwydd yn codi o berchnogaeth neu feddiannaeth tir neu adeiladau.
- iii Atebolrwydd yn codi o:
 - a berchnogaeth, meddiant neu ddefnydd gynnoch **chi** neu ar **eich** rhan o unrhyw eiddo;
 - b natur neu gyflwr unrhyw nwydd, eitem neu beth (gan gynnwys eu labelu neu gynhwysyddion) a werthir, cyflenwir, gosodir, codir, atgyweirir, newidir neu a drinir gynnoch **chi** neu ar **eich** rhan o unrhyw leoliad;yn Unol Daleithiau'r America neu Canada yn cynnwys **eich** canghennau, is-gwmnïau, asiantaethau, allfeydd neu swyddfeydd gwerthu neu ddothbarthu.
- iv dirwyon, cosbau neu iawndal cosbol a gwaethygedig.

- i Atebolrwydd lle mae indemniad yn cael ei ddarparu gan unrhyw yswiriant arall neu estyniad o'r polisi hwn.
- ii Atebolrwydd lle mae indemniad yn cael ei ddarparu gan estyniad 6 – indemniad cyhoeddwy o'r adran hon.
- iii Diflaniad anesboniadwy neu ddirgel neu brinder anesboniadwy.
- iv Unrhyw weithred neu esgeulustra anonest, twyllodrus, troseddol neu faleisus a gyflawnir gan unrhyw berson wedi darganfod achos rhesymol o amheuaeth ynglŷn â'r fath weithred neu esgeulustra mewn perthynas â'r person hwnnw.
- v Indemniad i unrhyw berson sy'n cyflawni neu'n esgusodi gweithred neu esgeulustra anonest, twyllodrus, troseddol neu faleisus.
- vi Dirwyon, cosbau, iawndal cosbol neu nad ydy'n ad-daliadol.
- vii Atebolrwydd a dybir trwy gytundeb oni bai y byddai atebolrwydd ynghlwm heb gytundeb o'r fath.
- viii Canlyniad unrhyw amgylchiad y gwyddoch **chi** amdano ar ddechrau'r sicrwydd yswiriant hwn a allai achosi hawliad.
- ix Unrhyw gamau cyfreithiol a ddygir mewn llys barn y tu allan i'r **ffiniau tiriogaethol**.
- x Atebolrwydd am unrhyw hawliad a wneir yn eich erbyn **chi** oherwydd unrhyw weithred a gyflawnir neu yr honnir iddo gael ei gyflawni cyn y dyddiad ôl-weithredol a ddangosir yn **eich rhestr atodol**.
- xi Cwmsela, cyngor, cynllunio neu ragfanylion a roddir am ffi.
- xii Colled yn codi o unrhyw weithred neu esgeulustra y gwyddai'r ymddiriedolwr neu'r swyddog ei fod yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-ddylestywydd neu a gyflawnir gan yr ymddiriedolwr neu'r swyddog gan ddiystyru'n ddi-hid pa un ai ei fod yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-ddylestywydd ai peidio.
- xiii Atebolrwydd fel canlyniad uniongyrchol i ymddiriedolwr neu swyddog yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel ymddiriedolwr neu weinyddwr unrhyw gynllun neu raglen bensiw neu ymddoleiad.

Eithriadau sy'n berthnasol i adran 5 - Atebolrwydd

Eithriad

1. Ymweliadau allan ar y môr

Yn berthnasol i atebolrwydd cyflogwyr, cyhoeddus a chynnyrch

Fyddwn **ni** ddim yn rhwym i atebolrwydd yn codi o unrhyw ddigwyddiad a ddigwydd ar unrhyw lwyfan allan ar y môr, rig, cwch neu osodiad gwasanaethu neu lety, na thra yng nghwrs **taith** yn uniongyrchol at neu o leoliad o'r fath allan ar y môr.

2. Cynlluniau profiad gwaith

Yn berthnasol i atebolrwydd cyflogwyr, cyhoeddus a chynnyrch

Fyddwn **ni** ddim yn rhwym i atebolrwydd yn codi o unrhyw gynlluniau profiad gwaith, creu swyddi neu debyg yr **ydych** yn rhan ohonyn nhw oni bai **ein** bod wedi cytuno yn ysgrifenedig i ddarparu indemnïad i **chi**.

3. Atebolrwydd trwy gytundeb

Yn berthnasol i atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch yn unig

Fyddwn **ni** ddim yn rhwym i atebolrwydd yn codi o neu mewn cysylltiad ag unrhyw waith contract a gyflawnir gynnwch **chi** neu nwydd, eitem neu beth a gyflenwir gynnwch **chi** lle mae atebolrwydd o'r fath eisoes wedi'i dderbyn trwy gytundeb oni bai y byddai atebolrwydd o'r fath wedi glynu yn absenoldeb cytundeb o'r fath.

4. Llygredd neu halogiad

Yn berthnasol i atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch yn unig

I bwrpas yr eithriad hwn, mae "llygredd a halogiad" yn golygu:

- i pob llygredd neu halogiad i adeiladau neu adeiladweithiau neu ddŵr neu dir neu'r atmosffer, a
- ii phob colled neu **ddifrod** neu niwed a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan lygredd neu halogiad o'r fath.

Wnawn **ni** ddim eich indemnïo am atebolrwydd sy'n codi o lygredd neu halogiad heblaw am a achosir gan ddigwyddiad disymwth, adnabyddadwy, anfwriadol ac annisgwyl sy'n digwydd yn ei gyfanrwydd ar adeg benodol mewn man penodol yn ystod y **cyfnod yswiriant**.

Fe ystyrir bod yr holl lygredd a halogiad sy'n codi o un digwyddiad wedi digwydd ar adeg y digwyddiad.

5. Asbestos

Yn berthnasol i atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch yn unig

Wnawn **ni** ddim **eich** indemnïo am:

- i atebolrwydd yn codi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ddod i gysylltiad ag, anadlu, neu ofnau canlyniadau dod i gysylltiad ag, neu anadlu, asbestos, ffibrau asbestos neu unrhyw beth yn tarddu o asbestos gan gynnwys unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys asbestos, ffibrau asbestos neu'n tarddu o asbestos;
- ii cost glanhau, neu symud, neu **ddifrod** i eiddo yn codi o unrhyw asbestos, ffibrau asbestos neu unrhyw beth yn tarddu o asbestos, gan gynnwys unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys asbestos, ffibrau asbestos neu'n tarddu o asbestos.



Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Person yswiriedig

Aelodau, **gweithwyr gwirfoddol** a chyflogedig (term sydd i gynnwys **eich** gweinidog) yr eglwys tra'n gweithredu dan **eich** awdurdod ac yn ymhél â gwaith neu weithgareddau **eich** eglwys.

Niwed corfforol damweiniol

Niwed neu anafiadau corfforol a achosir yn uniongyrchol yn ddamweiniol neu ddod i gysylltiad anorfod â'r elfennau naturiol sydd, o fewn 104 wythnos i ddyddiad y ddamwain neu'r cysylltiad hwnnw, fel canlyniad yn golygu marwolaeth neu anabledd y **person yswiriedig**.

Colli coes neu fraich

Colli'n barhaol defnydd (trwy ddatgysylltiad corfforol neu fel arall) un neu'r ddwy law yn neu uwchben yr arddwrn neu un neu'r ddwy droed yn neu uwchben y ffêr.

Colli golwg

Colli golwg parhaol, cyfangwbl ac anadferadwy neu'r gallu i weld goleuni mewn un neu'r ddau lygad.

Anabl llwyr barhaol

Anabledd llwyr ac absoliwt sy'n rhwystro'r **person yswiriedig** rhag sicrhau cyflogaeth fuddiol ac, wedi para am gyfnod parhaus o 104 wythnos, nad oes gobaiht gwella.

Anabledd llwyr dros dro

Anabledd sy'n llwyr rhwystro'r **person yswiriedig** rhag ymwneud â neu ymhel â rhan sylweddol a hanfodol o'u dyletswyddau a'u gweithgareddau eglwys arferol.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Os ydy unrhyw **person yswiriedig** yn dioddef **niwed corfforol damweiniol** yn ystod y cyfnod yswiriant o fewn y **ffiniau tiriogaethol**, fe wnawn **ni** dalu i **chi**'r budd-daliadau a ddangosir yn y tabl budd-daliadau drosodd.

Fe wnawn ni hefyd dalu am:

- i dreuliau meddygol a llawfeddygol y **person yswiriedig** hyd at £100;
- ii difrod i ddillad ac eitemau personol y **person yswiriedig**, os nad wedi'u hyswiro mewn man arall yn y polisi hwn, hyd at £100;

yn codi o **niwed corfforol damweiniol** y telir budd-dal amdano dan yr adran hon.

Caiff y budd-daliadau dan yr adran hon eu talu i **chi** yn achos person yn achos **person yswiriedig** yn derbyn **niwed corfforol damweiniol** fel canlyniad i ymosodiad neu drais a achosir iddyn nhw yng nghwrs lladrad, neu ymgais i ladrata, **arian** a yswirir trwy adran 3 – arian.

Yr uchafswm wnawn **ni** ei dalu ar gyfer pob **niwed corfforol damweiniol** i bersonau fel canlyniad i neu a achosir gan unrhyw un digwyddiad ydy £500,000, ond wnawn **ni** ddim talu i unrhyw un **person yswiriedig** mwy na swm y budd-dal a ddangosir yn y tabl budd-daliadau.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Wnawn **ni** ddim talu budd-daliadau am niwed corfforol sy'n ganlyniad:

- i i unrhyw weithred droseddol gan **person yswiriedig**;
- ii hunan-niwed bwriadol, hunanladdiad neu ymgais at hunanladdiad, gwallgofrwydd, ansefydlogrwydd neu iselder meddyliol gan neu'r **person yswiriedig**;
- iii i'r **person yswiriedig** yn cymryd rhan mewn terfysg sifil neu reiat;
- iv i'r defnydd o alcohol neu gyffuriau gan y **person yswiriedig**;
- v i unrhyw gyflyrau meddygol yn bod o'r blaen a ddylai yn rhesymol fod wedi bod yn wybyddus i'r **person yswiriedig** neu **chi** ar ddechrau'r yswiriant hwn neu adeg ei adnewyddu ac na chafodd ei ddatgelu i **ni** a'i dderbyn gynnon **ni** yn ysgrifenedig;
- vi geni plentyn neu feichiogrwydd;
- vii i fod yn agored yn fwriadol i berygl diangen (heblaw mewn ymgais i achub bywyd dynol);
- viii plymio tanc anadlu, sgïo dŵr, paresgyn, hedfan (heblaw fel teithiwr talu), barcau, parasiwtio, hela ar gefn ceffyl, polo, neidio ceffylau, ras ffos a pherth, rasio (heblaw ar droed), gyrru beiciau modur neu sgwteri modur, crefftau ymladd, bocsi, reslo, campau'r gaeaf (heblaw cwrlo, chwarae hyrli, pêl-droed, rygbi'r undeb, rygbi'r gynghrair, pêl-droed Americanaidd, mynydda, dringo mynyddoedd neu greigiau, abseilio, neidio bynji, ceunanta, ogofa dan ddaear, mynd mewn cwch neu hwylio y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig, mynd mewn cychod sydd â'r gallu i gyrraedd cyflymder o 15 not, chwaraeon proffesiynol neu lled-broffesiynol, gwasanaeth yn y lluoedd arfog;
- ix gwaith yn ymwneud â defnyddio ysgolion neu sgaffaldiau dros 6 metr o'r ddaear neu lefel y llawr;
- x gwaith ar du allan i adeilad dros 6 metr o'r ddaear;
- xi defnydd peirianwaith gwaith coed;
- xii i dorri neu docio coed;
- xiii HIV (firws imiwnoddiffyg dynol) ac/neu unrhyw salwch cysylltiedig ag HIV gan gynnwys AIDS (syndrome diffyg imiwnedd caffaeledig) ac/neu unrhyw ddeilliadau o hynny, sut bynnag y'u hachosir.

Tabl budd-daliadau damweiniau personol

Niwed corfforol damweiniol yn golygu: Swm y budd-dal sy'n daladwy i'r **person yswiriedig** yn yr ystod oedrannau:

	Oedrannau 5-15 yn gynhwysol	Oedrannau 16-80 yn gynhwysol
Marwolaeth	£10,000	£10,000
Anabledd llwyr barhaol	£10,000	£10,000
Colli coes neu fraich	£10,000	£10,000
Colli golwg	£10,000	£10,000
Anabledd llwyr dros dro Am gyfnod heb fod yn fwy na 104 wythnos yn gyfangwbl ar raddfa yr wythnos o:	£10	£100

Nid oes budd-dal yn daladwy am **person yswiriedig** sydd ag oedran tu allan i'r ystodau a ddangosir uchod.

Estyniadau sy'n berthnasol i adran 6 – Damwain bersonol

Yr hyn sy'n gynwysedig

Fe wnawn ni ymestyn y sicrwydd yswiriant dan yr adran hon i dalu am

Estyniad

1. Ymweliadau tramor dros dro

Gweinidogion, boed nhw ar ddyletswydd ai peidio, o fewn y **ffiniau tiriogaethol** neu tra'u bod ar ymweliadau dros dro y tu allan i'r **ffiniau tiriogaethol**.

Ymhellach, yn amodol ar **ein** cytundeb ysgrifenedig blaenorol a thalu premiwm ychwanegol ar **ein** cais, fe ymestynnir sicrwydd yswiriant yr adran hon i'ch yswirio **chi**, **eich** gweithwyr ac aelodau **eich** eglwys tra'u bod ar ymweliadau gwaith neu weithgareddau **eich** eglwys.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Wnawn **ni** ddim talu budd-daliadau am niwed corfforol fel canlyniad i unrhyw achos a restrir yn "yr hyn sydd ddim yn gynwysedig" yn yr adran hon.



Mae'r adran hon wedi'i warantu gan DAS Legal Expenses Insurance Company Ltd.

Awdurdodir DAS Legal Expenses Insurance Company Limited gan Prudential Regulation Authority a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Awdurdod Rheoleiddio Prudential Regulation.

DAS Legal Expenses Insurance Company Limited. Prif Swyddfa a Swyddfa Gofrestru: DAS House, Quay Side, Temple Back, Bryste (Bristol), BS1 6NH. Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru, rhif cwmni 103274. Gwefan: www.das.co.uk.

Prif Swyddfa a Swyddfa Gofrestru DAS Law Limited: DAS Law Limited, North Quay, Temple Back, Bryste (Bristol) BS1 6FL

Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru, rhif cwmni 5417859. Gwefan: www.daslaw.co.uk

Awdurdodir a rheoleiddir DAS Law Limited gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (rhif cofrestredig 423113).

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol

Mae **DAS** wedi'i warchod trwy'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir hawlio iawndal o'r cynllun os na all **DAS** gyfarfod â'u hobygiadau. Bydd hyn yn ddibynnol ar y math o fusnes ac amgylchiadau'r hawliad. Gellir canfod mwy o wybodaeth am drefniadau'r cynllun digolledu ar wefan FSCS: www.fscs.org.uk

Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi

Cynrychiolydd apwyntiedig

Y **cwmni cyfreithiol dewisol**, cwmni cyfreithiol, **ymgyngoriaeth ar dreth**, cyfrifydd neu berson cymwys arall, y bydd **DAS** yn ei benodi i weithredu ar ran y person yswiriedig.

Busnes

Fel a ddangosir fel yr yswiriedig yn **eich rhestr atodol**.

Costau a threuliau

- i Holl gostau rhesymol ac angenrheidiol taladwy i'r cynrychiolydd apwyntiedig ac a gytunwyd gan DAS yn unol â **thelerau penodi safonol DAS**.
- ii Costau a achosir gan wrthwynebwyd mewn achosion sifil os ydy'r **person yswiriedig** wedi cael gorchymyn i'w talu, neu fod y person yswiriedig yn eu talu gyda chytundeb **DAS**.

Gwledydd a gynhwysir yn y sicrwydd

- i Ar gyfer digwyddiadau yswiriedig 2. amddiffyniad cyfreithiol ac eithrio 2iv, a niwed corfforol:
Yr Undeb Ewropeaidd, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel, Albania, Andorra, Bosnia Herzegovina, Gibraltar, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Macedonia, Monaco, Montenegro, Norwy, San Marino, Serbia, Y Swistir a Twrci.
- ii Ar gyfer pob digwyddiad yswiriedig arall:
Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel.

DAS

DAS Legal Expenses Insurance Company Limited.

Telerau penodi safonol DAS

Y telerau a'r amodau (gan gynnwys y swm bydd **DAS** yn ei dalu i **cynrychiolydd apwyntiedig**) sy'n gymwys i'r math perthnasol o hawliad, a all gynnwys cytundeb ffi amodol (heb ennill, dim ffi).

Dyddiad digwyddiad

- i Mewn achosion sifil (heblaw am rai dan amddiffyniad treth digwyddiad yswiriedig), dyddiad y digwyddiad sy'n arwain at hawliad. Os oes mwy nag un digwyddiad yn codi ar wahanol amserau o'r un achos gwreiddiol, dyddiad y digwyddiad ydy dyddiad y cyntaf o'r digwyddiadau hyn. (Dyma ddyddiad y digwyddiad, a all fod cyn y dyddiad y daethoch **chi** neu **person yswiriedig** yn ymwybodol gyntaf ohono);
- ii Mewn achosion troseddol, y dyddiad y dechreuodd, neu yr honnir i'r **person yswiriedig** ddechrau, torri'r gyfraith;
- iii Mewn achos apêl trwydded statudol digwyddiad yswiriedig, y dyddiad y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r cais gan yr awdurdod trwyddedu neu reoleiddio perthnasol i wahardd, newid telerau, gwrthod adnewyddu neu ddiddymu eich trwydded, cofrestrriad gorfodol neu Dystysgrif Cofrestru Safonol Brydeinig;
- iv O ran amddiffyniad treth digwyddiad yswiriedig, y dyddiad pan fo Cyllid a Thollau EM, neu'r awdurdod perthnasol, yn **eich** hysbysu gyntaf o'u bwriad i gynnal ymchwiliad. Ar gyfer anghydfodau cydymffurfio â chyflogwr, y dyddiad mae'r anghydfod yn codi yn ystod y cyfnod yswirio yn dilyn cyhoeddi asesiad, penderfyniad ysgrifenedig neu rybudd o gosb sifil.

Anghydfod cydsyniad cyflogwr

Anghydfod gyda Cyllid a Thollau EM ynglŷn â'ch cydsyniad gyda Talu Wrth Ennill, Nawdd Cymdeithasol, y Diwydiant Adeiladu neu ddeddfwriaeth a rheoliadau IR35.

Diffiniadau sy'n berthnasol i'r adran hon o'r polisi (parhad)

Person yswiriedig

Chi a'ch gweinidogion, gweithwyr lleyg, gweithwyr ieuentid, gweithwyr gwirfoddol a gweithwyr cyflogedig.

Cyfnod yswiriant

Y cyfnod am yr hwn mae **DAS** wedi cytuno i roi sicrwydd yswiriant i'r **person yswiriedig**.

Cwmni cyfreithiol neu ymgynghoriaeth ar dreth dewisol

Cwmni cyfreithiol, siambrau bargyfreithiwr neu arbenigwr ar dreth mae **DAS** yn dewis i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neu arall. Dewisir yr arbenigwyr hyn gan mai ganddyn nhw mae'r arbenigedd i ddelio â hawliad person yswiriedig a bod rhaid cydymffurfio â lefelau safon gwasanaethau a gytunir gan **DAS**, y mae **DAS** yn eu harchwilio'n rheolaidd. Fe'u penodir yn unol â **Thelerau Penodi Safonol DAS**.

Rhagolygon rhesymol

- i Ar gyfer achosion sifil, mae'n rhaid i'r rhagolygon sydd gan y **person yswiriedig** y bydd yn adfer colledion neu iawndal neu ostyngiad mewn atebolrwydd treth neu Yswiriant Cenedlaethol (neu ennill ateb cyfreithiol arall a gytunwyd gan **DAS**, gan gynnwys gorfodaeth gorchymyn), gwneud amddiffyniad llwyddiannus neu apêl llwyddiannus neu amddiffyn apêl yn llwyddiannus fod o leiaf 51%. Bydd **DAS**, neu **gwmni cyfreithiol** neu **ymgynghoriaeth ar dreth dewisol** ar ran **DAS** yn asesu pa un ai bod y rhagolygon yn rhesymol ai peidio.
- ii Ar gyfer achosion troseddol, does dim gofyn cael rhagolygon am ganlyniad llwyddiannus, fodd bynnag, ar gyfer apeliadau, mae'n rhaid i'r rhagolygon fod o leiaf 51%.

Ymholiad treth

Rhybudd ysgrifenedig am ymholiad, wedi'i gyhoeddi gan Cyllid a Thollau EM, i gynnal gwiriad cydymffurfio treth incwm neu dreth gorfforaethol sydd un ai'n:

- i cynnwys ymholiad i archwilio unrhyw agwedd o'ch llyfrau a'ch cofnodion **chi**; neu'n
- ii cynghori am wiriad o'ch ffurflen dreth gyfan **chi**.

Anghydfod a TAW

Anghydfod gyda Chyllid a Thollau EM yn dilyn cyhoeddi asesiad, penderfyniad ysgrifenedig neu rybudd o gosb sifil yn ymwneud â'ch materion **TAW**.

Chi, eich

Y **busnes** sydd wedi cymryd y polisi hwn (dangosir fel yr yswiriedig yn eich **rhestr atodol**).

Manylion sicrwydd yswiriant

Bydd sicrwydd yswiriant yn cael ei ddarparu i'r **person yswiriedig** mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad yswiriedig yn codi mewn cysylltiad â gweinidogaeth y **person yswiriedig** neu weithgareddau cysylltiedig â'r yswiriedig os cafodd y premiwm ei dalu.

Mae **DAS** yn cytuno i ddarparu yswiriant y polisi hwn yn unol â'r sicrwydd sy'n weithredol yn **eich rhestr atodol** cyn belled â bod:

- i **dyddiad y digwyddiad** a yswirir yn disgyn o fewn y **cyfnod yswiriant** ac o fewn y gwledydd a enwir; a
- ii bydd gweithrediadau cyfreithiol yn cael eu delio gan lys, neu gorff arall a gytunir gan **DAS**, yn y gwledydd a restrir; ac
- iii mewn achosion sifil, mae'n hi'n fwy tebygol na pheidio y bydd y person yswiriedig yn derbyn iawndal (neu dderbyn unrhyw ateb cyfreithiol arall a gytunir gan **DAS**) neu wneud amddiffyniad llwyddiannus.

Ar gyfer pob digwyddiad yswiriedig, fe wnaiff **DAS** helpu trwy apelio neu amddiffyn apêl cyn belled â bod y **person yswiriedig** yn dweud wrth **DAS**, o fewn y terfynau amser a ganiateir, eu bod am i **DAS** apelio. Cyn i **DAS** dalu unrhyw gostau a threuliau apeliadau, rhaid i **DAS** gytuno ei bod hi bob amser yn fwy tebyg na pheidio y bydd yr apêl yn llwyddiannus.

Os defnyddir **cynrychiolydd apwyntiedig**, bydd **DAS** yn talu'r costau a'r treuliau cysylltiedig.

Bydd **DAS** yn talu dyfarniadau iawndal a gytunir gan **DAS**.

Yr uchafswm bydd **DAS** yn ei dalu am holl hawliadau fel canlyniad i un neu fwy digwyddiad yn codi ar yr un pryd neu o'r un achos cychwynnol ydy £100,000.

Ni fydd yr uchafswm bydd **DAS** yn ei dalu mewn **costau a threuliau** yn fwy na'r swm y base **DAS** wedi'i dalu i **gwmni cyfreithiol** neu **ymgyngoriaeth ar dreth dewisol**. Mae'r swm bydd **DAS** yn ei dalu i gwmni cyfreithiol (yn gweithredu fel **cynrychiolydd apwyntiedig**) yn £100 yr awr ar hyn o bryd. Efallai y gwnaiff y swm yma amrywio o dro i dro.

Mewn perthynas ag apêl neu amddiffyn apêl, mae'n rhaid i ddweud wrth **DAS** o fewn y terfynau amser a ganiateir, eich bod am apelio. Cyn i **DAS** dalu costau a threuliau apeliadau, mae'n rhaid i **DAS** gytuno bod rhagolygon rhesymol yn bodoli.

Ar gyfer gorfodaeth gorchymyn i gasglu arian a llog sy'n ddyledus i **chi** wedi hawliad llwyddiannus dan y polisi hwn, mae'n rhaid i **DAS** gytuno bod rhagolygon rhesymol yn bodoli.

Lle mai dyfarniad iawndal ydy'r unig ateb cyfreithiol i anghydfod a bod cost bwrw ymlaen gyda chamau cyfreithiol yn debygol o fod yn fwy nag unrhyw ddyfarniad iawndal, yr uchafswm bydd **DAS** yn ei dalu mewn **costau a threuliau** ydy gwerth y dyfarniad tebygol, a

Gyda golwg ar Amddiffyniad cyfreithiol 6 Gwasanaeth rheithgor a phresenoldeb mewn llys, yr uchafswm bydd **DAS** yn ei dalu ydy tâl neu gyflog net y **person yswiriedig** am yr amser mae'r **person yswiriedig** yn absennol o'r gwaith, llai unrhyw swm rydych chi, y llys neu dribiwnllys yn ei dalu.

Yr hyn na fydd **DAS** yn ei dalu

- 1 Yn achos hawliad, os byddwch **chi**'n penderfynu peidio â defnyddio gwasanaethau **cwmni cyfreithiol** neu **ymgyngoriaeth ar dreth dewisol**, **chi** fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n disgyn oddi allan i **delerau penodi safonol DAS** ac ni fydd **DAS** yn talu'r rhain.
- 2 Bydd cyfanswm y dyfarniadau iawndal taladwy gan **DAS** yn ddim mwy na £1,000,000 mewn unrhyw un **cyfnod yswiriant**.

Yr hyn sy'n gynnwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

1. Anghydfodau cyflogaeth a dyfarniadau iawndal

i Anghydfodau cyflogaeth

Costau a threuliau i amddiffyn **eich** hawliau cyfreithiol:

- a cyn cyhoeddi gweithrediadau cyfreithiol mewn llys neu dribiwnlys:
 - i yn dilyn diswyddo gweithiwr, neu
 - ii lle mae gweithiwr neu gyn-weithiwr wedi cysylltu ag ACAS i gychwyn gweithdrefn Cymod Cynnar;
- b mewn anghydfodau diswyddo annheg dan Gynllun Cymodi ACAS;
- c mewn gweithrediadau cyfreithiol mewn cysylltiad ag unrhyw anghydfod yn ymwneud â:
 - i contract cyflogaeth gyda **chi**; neu
 - ii thorri honedig ar hawliau statudol gweithiwr, cyn-weithiwr neu ddarpar-weithiwr dan ddeddfwriaeth gyflogaeth.

ii Dyfarniadau iawndal

Bydd **DAS** yn talu:

- a unrhyw ddyfarniad sylfaenol ac ad-daliadol; a/neu
 - b gorchymyn am iawndal yn dilyn torri **eich** dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth gyflogaeth mewn cysylltiad â hawliad a dderbyniwyd gan **DAS** dan ddigwyddiad yswiriedig 1. anghydfodau cyflogaeth a dyfarniadau iawndal;
- a derbyn bod:
- i mewn achosion yn ymwneud â pherfformiad ac/neu ymddygiad, **eich** bod trwy gydol yr anghydfod cyflogaeth un ai wedi:
 - a dilyn Cod Gweithdrefnau Disgyblaeth a Chwyno ACAS;
 - b dilyn codau ymarfer cyfatebol a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur yng Ngogledd Iwerddon;
 - c ceisio a dilyn cyngor gan wasanaeth cyngor cyfreithiol **DAS** (gweler llinellau cymorth ar dudalen 7).
 - ii ar gyfer gorchymyn iawndal yn dilyn torri **eich** dyletswydd statudol dan ddeddfwriaeth gyfreithiol, **eich** bod bob amser wedi ceisio a dilyn cyngor gan wasanaeth cyngor cyfreithiol **DAS** ers y dyddiad y dylech chi fod wedi gwybod am yr anghydfod cyflogaeth (gweler llinellau cymorth ar dudalen 7);
 - iii ar gyfer unrhyw ddyfarniad iawndal am ddiswyddiad neu ddiswyddiad honedig neu ddewis annheg ar gyfer diswyddiad, eich bod wedi ceisio a dilyn cyngor gan adran hawliadau **DAS** cyn dechrau unrhyw broses neu weithdrefn ddiswyddiad gyda'ch cyflogwyr (rhif ffôn uchod);
 - iv yr iawndal yn cael ei ddyfarnu gan dribiwnlys neu drwy Gynllun Cymodi ACAS, dan ddyfarniad a wnaed wedi trafodaeth lawn ac fel arall yn hytrach na thrwy gydsyniad neu ddiffyg, neu sy'n daladwy dan setliad a gymeradwyir yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan **DAS**.

Yr hyn sydd ddim yn gynnwysedig

- i Oni bai bod yswiriant treuliau cyfreithiol cyfatebol yn barhaol mewn grym yn union cyn dechrau'r polisi hwn:
 - a unrhyw anghydfod lle cwyd yr achos gweithredu cychwynnol o fewn y 90 diwrnod cyntaf o ddechrau'r polisi hwn;
 - b unrhyw anghydfod gyda gweithiwr a fu'n destun rhybudd ysgrifenedig neu lafar (ffurfiol neu anffurfiol) o fewn 180 diwrnod yn union cyn dyddiad dechrau'r polisi hwn os oedd **dyddiad y digwyddiad** o fewn y 180 diwrnod cyntaf dechrau'r polisi hwn;
 - c unrhyw ddiswyddiad neu ddiswyddiad honedig neu ddewis annheg ar gyfer diswyddiad o fewn y 180 diwrnod cyntaf o ddechrau'r polisi hwn.
 - ii lawndal ar gyfer niwed personol neu golli neu ddifrod i eiddo.
 - iii Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE) neu Reoliadau Trosglwyddo Cyflogaeth (Diogelu Pensiwn).
-
- i Unrhyw ddyfarniad iawndal yn ymwneud â'r canlynol:
 - a gweithgareddau undebau llafur, bod yn aelod neu beidio o undeb llafur;
 - b hawliau beichiogrwydd neu famolaeth, hawliau tadolaeth, rhienirol neu fabwysiadu;
 - c diswyddiadau'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch wedi'u dwyn dan adran 44 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
 - d hawliau statudol mewn perthynas ag ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol.
 - ii Methu talu arian dyledus dan contract cyflogaeth neu ddarpariaeth statudol.
 - iii Unrhyw ddyfarniad a orchynnwyd oherwydd i **chi** fethu darparu cofnodion perthnasol i gyflogwyr dan ddeddfwriaeth Isafswm Cyflog Cenedlaethol.
 - iv Dyfarniad iawndal neu gynydd yn yr iawndal yn ymwneud â methiant i gydymffurfio ag argymhellion presennol neu flaenorol a wnaed gan dribiwnlys.
 - v Setliad a gytunwyd ac yn daladwy yn dilyn cymodi dan weithdrefn Cymodi Cynnar ACAS.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Digwyddiad
Yswiriedig

iii Meddiannaeth yn rhinwedd swydd

Costau a threuliau bwrw ymlaen ag anghydfod gyda gweithiwr neu gyn-weithiwr i adfer meddiant eiddo sy'n perthyn i **chi** neu yn gyfrifoldeb i **chi**.

2. Amddiffyniad cyfreithiol

Costau a threuliau i amddiffyn hawliau cyfreithiol y **person yswiriedig**.

i Sicrwydd yswiriant cyn-weithrediadau troseddol cyn cyhoeddi gweithrediadau cyfreithiol, wrth ddelio gyda'r Heddlu, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a/neu Swyddog Gorfodi Iechyd a Diogelwch Awdurdod Lleol. Lle yr honnir bod y **person yswiriedig** wedi neu mae'n bosib wedi cyflawni trosedd.

ii Amddiffyniad erlyniad troseddol yn dilyn digwyddiad sy'n arwain at erlyn y **person yswiriedig** mewn llys awdurdodaeth droseddol.

*Noder y bydd **DAS** ond yn rhoi sicrwydd yswiriant ar gyfer ymchwiliadau troseddol ac/neu erlyniadau sy'n codi mewn cysylltiad uniongyrchol â gweithgareddau'r **cwmni** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**. Gweler cytundeb **DAS**.*

iii Diogelu data a chofrestrriad comisiynydd gwybodaeth:
a os cymerir camau sifil yn erbyn y **person yswiriedig** dan adran 13 Deddf Diogelu Data 1998. Bydd **DAS** hefyd yn talu unrhyw ddyfarniad iawndal a wneir yn erbyn y person yswiriedig dan adran 13 Deddf Diogelu Data 1998;
b mewn apêl yn erbyn gwrthodiad y Comisiynydd Gwybodaeth i gofrestru **eich** cais am gofrestrriad.

*Noder na fydd **DAS** yn rhoi sicrwydd yswiriant am gost dirwyon a osodir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gweler eithriad 3 ar dudalen 46.*

iv Apeliadau rhybuddion statudol
a apêl yn erbyn gosod telerau unrhyw Rybudd Statudol a gyhoeddir mewn cysylltiad â'ch trwydded, cofrestrriad gorfodol neu Dystysgrif Gofrestru Safonol Brydeinig.
b rhybudd statudol a gyhoeddir gan gorff rheoleiddio neu lywodraethu y **person yswiriedig**.

v arestio ar gam
Os dygir camau sifil yn **eich** erbyn am arestio ar gam mewn perthynas â chyhuddiad o ladrata yr honnir iddo ddiwydd yn ystod y **cyfnod yswiriant**.

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Unrhyw hawliad yn ymwneud ag amddiffyn **eich** hawliau cyfreithiol heblaw amddiffyn gwrthgais.

Hawliad yn ymwneud ag erlyniad oherwydd torri deddfau traffig ffordd neu reoliadau mewn perthynas â pherchnogaeth, gyrru neu ddefnydd cerbyd modur.

Hawliad yn ymwneud ag erlyniad oherwydd torri deddfau traffig ffordd neu reoliadau mewn perthynas â pherchnogaeth, gyrru neu ddefnydd cerbyd modur.

Yr hyn sy'n gynwysedig

Digwyddiad
Yswiriedigdilyn

3. Amddiffyniad eiddo a niwed personol

i Amddiffyniad eiddo

Costau a threuliau mewn anghydfod sifil mewn perthynas ag eiddo perthnasol sy'n perthyn i **chi**, neu **eich** cyfrifoldeb yn dilyn:

- a unrhyw ddigwyddiad sy'n achosi difrod ffisegol i eiddo o'r fath;
- b niwsans cyfreithiol (yn golygu unrhyw ymyrraeth anghyfreithlon gyda'ch defnydd neu fwynhad o'ch tir, neu ryw hawl drosto, neu mewn cysylltiad â'r tir);
- c tresmas.

*Noder bod rhaid i **chi** fod wedi sefydlu perchnogaeth gyfreithiol neu hawl i'r tir sy'n destun anghydfod.*

ii Niwed personol

Ar **eich** cais, bydd **DAS** yn talu **costau a threuliau** hawliau **person yswiriedig** ac aelodau eu teulu yn dilyn digwyddiad penodol neu ddisymwth sy'n achosi eu marwolaeth, neu niwed corfforol iddyn nhw.

4. Amddiffyniad treth

i **Ymholiad treth.**

ii **Anghydfod cydymffurfio cyflogwr.**

iii **Anghydfod ynglŷn â TAW.**

A derbyn eich bod wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod holl gyfrifon yn gyflawn a chywir ac wedi'u cyflwyno o fewn y terfynau amser statudol a ganiateir.

*Noder na fydd **DAS** ond yn rhoi sicrwydd yswiriant i hawliadau treth sy'n codi mewn cysylltiad uniongyrchol â gweithgareddau'r **cwmni** a ddangosir yn **eich rhestr atodol**. Gweler cytundeb **DAS**.*

Yr hyn sydd ddim yn gynwysedig

Unrhyw hawliad mewn perthynas â'r canlynol:

- a contract rydych **chi** wedi taro bargaen arni;
- b nwyddau sy'n cael eu cludo neu nwyddau y rhoddwyd eu benthyg neu a huriwyd allan;
- c nwyddau mewn eiddo heblaw'r rhai sydd yn eich meddiannaeth **chi** oni bai bod y nwyddau yn yr eiddo i bwrpas gosodiadau neu waith sydd i'w wneud gynnoch **chi**;
- ch ymsuddiant mwyngloddio;
- d amddiffyn **eich** hawliau cyfreithiol ond bydd **DAS** yn sicrhau amddiffyn gwrthgais;
- dd cerbyd modur sy'n berchen i chi neu'n cael ei ddefnyddio gan, neu ei hurio neu ar les i **person yswiriedig**, heblaw difrod i gerbydau modur lle rydych chi yn y busnes o werthu cerbydau modur;
- e gorfodi cyfamod ganddoch chi neu yn eich erbyn chi.

Unrhyw hawliad mewn perthynas â'r canlynol:

- a unrhyw salwch neu niwed corfforol sy'n digwydd yn raddol;
- b niwed seicolegol neu salwch meddwl oni bai bod y cyflwr yn dilyn damwain benodol neu ddisymwth sydd wedi achosi niwed corfforol;
- c amddiffyn hawliau cyfreithiol **person yswiriedig** neu aelodau eu teulu heblaw amddiffyn gwrthgais;
- ch esgeulustod clinigol.

- a Unrhyw hawliad yn ymwneud â chynllun osgoi treth
- b Unrhyw fethiant i gofrestru ar gyfer Treth Ar Werth neu Talu Wrth Ennill.
- c Unrhyw ymchwiliad neu ymholiadau gan, gyda neu ar ran Adran Ymchwiliadau Arbennig Cyllid a Thollau EM, Ymchwiliadau Sifil Arbennig, Uned Ymchwiliadau Troseddol, Uned Trethi Troseddol, o dan Hysbysiad Cyhoeddus 160 neu gan Swyddfa Eryln cyllid a Thollau EM.
- ch Unrhyw hawliad yn ymwneud â thollau mewnfario neu gartref a TAW mewnfario.
- d Unrhyw ymchwiliad neu ymholiad gan Cyllid a Thollau EM i anonestrwydd honedig neu dramgwyddau troseddol honedig.

Eithriadau sy'n berthnasol i Adran 7 - amddiffyniad cyfreithiol

Eithriad

1. Hawliadau a riportir yn hwyr

Unrhyw hawliad a riportir i **DAS** fwy na 180 diwrnod wedi'r dyddiad y dylai'r **person yswiriedig** fod wedi gwybod am y digwyddiad yswiriedig.

2. Costau heb eu cytuno gan **DAS**

Costau a threuliau a achosir cyn i **DAS** gytuno'n ysgrifenedig â'r hawliad.

3. Dyfarniadau a dirwyon llysoedd

Dirwyon, cosbau ac iawndal y gorchymnir i'r **person yswiriedig** eu talu gan lys neu awdurdod arall, heblaw dyfarniadau iawndal sydd wedi'u sicrhau dan ddigwyddiadau yswiriedig, anghydfodau cyflogaeth a dyfarniadau iawndal ac amddiffyniad cyfreithiol.

4. Camau cyfreithiol heb eu cytuno gan **DAS**

Camau cyfreithiol a gymer **person yswiriedig** sydd heb eu cytuno gan **DAS** na'r **cynrychiolydd apwyntiedig**, neu lle bo'r **person yswiriedig** yn gwneud unrhyw beth sy'n rhwystro **DAS** neu'r **cynrychiolydd apwyntiedig**.

5. Hawliau eiddo deallusol

Unrhyw hawliad mewn perthynas â phatentau, hawlfreintiau, nodau masnachu, nodau nwyddau, cynlluniau cofrestredig, eiddo deallusol, cytundebau preifatrwydd a chyfrinachedd.

6. Gweithredoedd bwriadol

Unrhyw ddigwyddiad yswiriedig a achosir yn fwriadol neu'n bwrpasol gan **person yswiriedig**.

7. Cytundebau etholfraint neu asiantaeth

Unrhyw hawliad mewn perthynas â hawliau dan gytundeb etholfraint neu asiantaeth a gytunwyd gynnoch **chi**.

8. Anghydfod gyda **DAS**

Anghydfod gyda **DAS** sydd heb gael ei ddelio fel arall dan amod polisi 8.

9. Anghydfodau cyfranddeiliaeth neu bartneriaeth

Unrhyw hawliad mewn perthynas â chyfranddeiliaeth neu rannu partneriaeth yn y **cwmni** a ddangosir ar **eich rhestr atodol**.

10. Adolygiad barnwrol

Costau a threuliau yn codi o neu mewn perthynas ag adolygiad barnwrol, cwest crwner neu ymchwiliad i ddamwain angheuol.

11. Ymosodiadau niwclear, rhyfel a therfysgaeth

Unrhyw hawliad a achosir gan, y cyfrannir at neu'n codi o:

- i ymbelydredd ÷oneiddio neu halogiad gan ymbelydredd unrhyw danwydd niwclear neu gan unrhyw wastraff niwclear trwy losgi tanwydd niwclear;
- ii nodweddion ymbelydrol, gwenwynig neu beryglus eraill unrhyw waith niwclear ffrwydro neu ran ohono;
- iii rhyfel, goresgyniad, gweithred gelyn tramor, ymladd (pa un ai a gyhoeddwyd rhyfel ai peidio), rhyfel cartref, gwrthryfel, chwyldro, grym neu wrthryfel milwrol, neu unrhyw weithred arall o derfysgaeth neu weithred honedig o derfysgaeth fel y'i diffinnir gan Ddeddf Terfysgaeth 2000;
- iv tonnau pwysedd a achosir gan awyrennau neu unrhyw ddyfeisiadau hedegog eraill sy'n teithio ar gyflymder sonig neu uwchsonig.

12. Methdaliad

Unrhyw hawliad lle un ai ar ddechrau, neu yn ystod cyfnod hawliad, rydych **chi**:

- i yn cael eich gwneud yn fethdalwr;
- ii wedi cofnodi cais methdaliad;
- iii wedi cofnodi cais dirwyn i ben;
- iv wedi gwneud trefniant gyda' **ch** credydwy;
- v llunio gweithred trefniant;
- vi wedi eich ymddiddymu;
- vii rhan neu'r oll o' **ch** materion busnes neu eiddo yng ngofal neu dan reolaeth derbynydd neu weithredwr.

13. Difenwad

Unrhyw hawliad sy'n ymwneud â sylwadau ysgrifenedig neu lafar sy'n niweidio enw da person.

14. Dyfeisiau dyddiad calendr

Unrhyw hawliad a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu'n ganlyniad i fethiant unrhyw ddyfais i adnabod, dadansoddi neu brosesu unrhyw ddyddiad fel ei gwir ddyddiad calendr.

15. Dim Cyfreithiwr

Unrhyw hawliad lle nad ydy **person yswiriedig** yn cael ei gynrychioli gan gwmni cyfreithwyr, bargyfreithiwr nag arbenigwr ar dreth t.

Amodau sy'n berthnasol i adran 7 – Amddiffyniad cyfreithiol

Amod

1. Eich cynrychiolaeth

- i Ar dderbyn eich hawliad, os oes angen cynrychiolaeth, bydd **DAS** yn penodi **cwmni cyfreithiol** neu **ymgyngoriaeth ar dreth dewisol** fel **eich cynrychiolydd apwyntiedig** i ddelio â'ch hawliad. Fe wnaen nhw geisio setlo eich hawliad trwy drafodaeth heb orfod mynd i'r llys.
- ii Os na all y **cwmni cyfreithiol** neu **ymgyngoriaeth ar dreth dewisol** drafod telerau setliad eich hawliad a'i bod yn ofynnol mynd i'r llys a bod gweithrediadau cyfreithiol yn cael eu cyhoeddi neu bod gwrthdaro buddiannau, yna fe gewch **chi** ddewis cwmni cyfreithiol neu arbenigwr ar dreth i weithredu fel y **cynrychiolydd apwyntiedig**. Bydd **DAS** yn dewis y **cynrychiolydd apwyntiedig** i'ch cynrychioli mewn unrhyw achos lle mae **DAS** yn atebol i dalu iawndal.
- iii Os ydych **chi'n** dewis cwmni cyfreithwyr fel eich cynrychiolwyr penodedig sydd ddim yn gwmni cyfreithwyr neu'n ymgynghoriaeth dreth ddewisol, bydd **DAS** yn rhoi cyfle i'ch dewis chi o gwmni cyfreithwyr i weithredu ar yr un telerau â **chwmmi cyfreithwyr** neu **ymgyngoriaeth dreth ddewisol**. Fodd bynnag, os wnawn nhw wrthod gweithredu ar y seiliau hyn, y mwyaf fydd **DAS** yn ei dalu allan ydy'r swm y base **DAS** wedi'i dalu petai nhw wedi cytuno i **Delerau Penodi Safonol DAS**. Mae'r swm fydd **DAS** yn talu cwmni cyfreithwyr (lle'n gweithredu fel y **cynrychiolydd apwyntiedig**) yn £100 yr awr ar hyn o bryd. Gall y swm yma amrywio o dro i dro.
- iv Mae'n rhaid i'r **cynrychiolydd apwyntiedig** gydweithredu gyda **DAS** ar bob amser a rhaid gadael i **DAS** wybod y diweddaraf ynglŷn â'r datblygiadau'n ymwneud â'r hawliad.

2. Eich cyfrifoldebau

Mae'n rhaid i **person yswiriedig**:

- i gydweithredu'n llawn ghyda **DAS** a'r **cynrychiolydd apwyntiedig**;
- ii roi i'r **cynrychiolydd apwyntiedig** unrhyw wybodaeth mae **DAS** yn gofyn ichi wneud.

3. Cynigion i setlo hawliad

- i Rhaid i **berson yswiriedig** ddweud wrth **DAS** os oes unrhyw un yn cynnig setlo hawliad ac ni ddylai drafod na chytuno ar unrhyw setliad heb **ein** caniatâd ysgrifenedig.
- ii Os nad ydy **person yswiriedig** yn derbyn cynnig rhesymol i setlo hawliad, efallai y gwnaiff **DAS** wrthod talu **costau a threuliau**.
- iii Fe all **DAS** benderfynu talu **person yswiriedig** gwerth rhesymol yr hawliad sy'n cael ei hawlio gan y **person yswiriedig** neu'n cael ei hawlio yn eu herbyn, yn hytrach na dechrau neu barhau camau cyfreithiol. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i **berson yswiriedig** ganiatáu i **DAS** gymryd drosodd a dilyn neu setlo hawliad yn eu henw. Rhaid i **person yswiriedig** ganiatáu i **DAS** i ddilyn ar draul costau ac er budd **DAS** eu hunain, unrhyw hawliad am iawndal yn erbyn unrhyw berson arall ac mae'n rhaid i **berson yswiriedig** roi'r holl wybodaeth i **DAS** a helpu **DAS** i wneud hynny.

4. Asesu ac adfer costau

- i Mae'n rhaid i **berson yswiriedig** gyfarwyddo'r **cynrychiolydd apwyntiedig** i sicrhau bod **costau a threuliau'n** cael eu trethu, eu hasesu neu'u harchwilio os ydy **DAS** yn gofyn am hyn.
- ii Mae'n rhaid i **berson yswiriedig** gymryd pob cam i adfer **costau a threuliau** a threuliau presenoldeb yn y llys a gwasanaeth rheithgor sydd yn rhaid i **DAS** eu talu a rhaid talu **DAS** unrhyw symiau caiff eu hadfer.

5. Canslo a phenodi cynrychiolydd

Os ydy'r **cynrychiolydd apwyntiedig** yn gwrthod parhau i weithredu dros y **person yswiriedig** oherwydd rheswm dilys gan y **cynrychiolydd apwyntiedig** neu fod y **person yswiriedig** yn diswyddo'r **cynrychiolydd apwyntiedig** heb reswm da, bydd sicrwydd yswiriant **DAS** yn dod i ben ar unwaith, oni bai bod **DAS** wedi cytuno i benodi **cynrychiolydd apwyntiedig** arall.

6. Tynnu sicrwydd yswiriant yn ôl

Os ydy **person yswiriedig** yn setlo hawliad neu'n tynnu eu hawliad yn ôl heb gytundeb **DAS**, neu heb roi cyfarwyddiadau priodol i'r **cynrychiolydd apwyntiedig**, gall **DAS** dynnu sicrwydd yswiriant yn ôl ac fe fydden nhw â'r hawl i adfer unrhyw **gostau a threuliau** mae **DAS** wedi'u talu.

7. Barn arbenigol

Mae'n bosib y bydd **DAS** yn gofyn **ichi**, ar **eich** cost eich hunan, am farn arbenigwr mae **DAS** yn ei ystyried sy'n briodol ar rinweddau unrhyw hawliad neu weithrediadau llys, neu ar egwyddor gyfreithiol. Rhaid bod yr arbenigwr wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw gan **DAS** a'r gost wedi'i gytuno yn ysgrifenedig rhyngddoch chi a **DAS**. Yn amodol ar hyn, bydd **DAS** yn talu costau ceisio barn os ydy barn yr arbenigwr yn dynodi ei bod hi'n fwy tebygol na pheidio y **byddwch** yn adennill iawndal (neu sicrhau unrhyw ateb cyfreithiol a gytunwyd gan **DAS**) neu wneud amddiffyniad llwyddiannus.

8. Cymodi

Os oes anghydfod rhyngddoch **chi** a **DAS** ynglŷn â delio â hawliad ac na chafodd ei ddatrys trwy weithdrefn cwynion mewnol **DAS** a'ch bod yn gwmni bach, fe gewch gysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol am gymorth. Mae manylion ar gael ar: www.financial-ombudsman.org.uk. Fel arall mae proses cymodi ar wahân i'w gael (mae hwn yn gymwys i gwmnïau o bob maint). Bargyfreithiwr fydd y cymodwr, un a ddewisir ar y cyd gynnoch chi a **DAS**. Os oes anghytundeb ynglŷn â dewis bargyfreithiwr, bydd **DAS** ayn gofyn i Sefydliad Siartredig y Cymodwyr i benderfynu.

9. Cadw at delerau'r polisi

Mae'n rhaid i **berson yswiriedig**:

- i gadw at delerau ac amodau'r polisi hwn;
- ii gymryd camau rhesymol i osgoi ac atal hawliadau;
- iii gymryd camau rhesymol i osgoi achosi costau dianghenraid;
- iv anfon popeth mae **DAS yn gofyn amdano yn ysgrifenedig**; a
- v rhoi adroddiad i **DAS** o fanylion llawn a ffeithiol unrhyw hawliad cyn gynted ag sy'n bosib a chyflwyno i **DAS** unrhyw wybodaeth y mae **DAS** ei angen.

10. Canslo'r polisi

Gall **DAS** ganslo'r polisi hwn ar unrhyw adeg cyn belled â bod **DAS** yn dweud wrthoch **chi** o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw. Fe gewch **chi** ganslo'r polisi hwn ar unrhyw adeg cyn belled ag yr hysbysir **DAS** o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw.

11. Hawliadau twyllodrus

Fe fydd **DAS**, yn ôl disgrisiwn **DAS**, yn dileu'r polisi (ei wneud yn ddi-rym) o ddyddiad hawliad, a/neu hawliad honedig, neu bydd **DAS** ddim yn talu'r hawliad os:

- i ydy hawliad a wnaed gan y **person yswiriedig** i dderbyn budd trwy'r polisi hwn yn dwyllodrus neu'n fwriadol yn ormodol; neu
- ii bod datganiad neu osodiad ffals yn cael ei wneud i gefnogi hawliad.

Lle bo'r amgylchiadau uchod yn gymwys, fel rhan o fesurau atal twyll **DAS**, fe fydd **DAS**, yn ôl disgrisiwn **DAS**, hefyd yn rhannu'r wybodaeth gyda phartion eraill megis yr heddlu, cyrff llywodraeth a mudiadau gwrth-dwyll.

12. Hawliadau dan y polisi hwn

Heblaw am **DAS**, **chi** ydy'r unig berson sy'n cael gorfodi'r oll neu unrhyw ran o'r polisi hwn a gan drydydd parti'r hawliau a'r diddordebau sy'n gysylltiedig neu'n codi ohono. Mae hyn yn golygu nad ydy'r Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn gymwys i'r polisi mewn perthynas ag unrhyw hawliau neu diddordebau trydydd parti.

13. Yswiriant arall

Os ydy unrhyw hawliad sydd â sicrwydd yswiriant dan y polisi hwn hefyd â sicrwydd yswiriant dan unrhyw bolisi arall, neu fase â sicrwydd yswiriant pe na bai'r polisi hwn yn bod, wnawn ni ddim ond talu cyfran **DAS** o'r hawliad, hyd yn oed os ydy'r yswiriant arall yn gwrthod yr hawliad.

14. Cyfraith weithredol

Mae'r polisi hwn yn cael ei reoli gan y gyfraith sy'n weithredol yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw lle y cofrestrir **eich cwmni**. Fel arall, cyfraith Lloegr a Chymru sy'n weithredol. Mae'r holl Ddeddfau Seneddol a grybwyllir yn y polisi hwn yn cynnwys cyfreithiau cyfatebol yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel lle bo'n briodol.

Diogelu data

Er mwyn darparu a gweinyddu'r gwasanaeth cyngor cyfreithiol a'r yswiriant treuliau cyfreithiol, mae angen i **DAS** brosesu'r data personol (gan gynnwys data personol sensitif megis euogfarnau) a gesglir gan **DAS** oddi wrthy ch chi yn unol â Pholisi Preifatrwydd **DAS**.

Er mwyn gwneud hynny, mae'n bosib y bydd angen i **DAS** anfon y wybodaeth hon at bartïon eraill, megis cyfreithwyr neu arbenigwyr eraill, y llys, canolwyr yswiriant neu gwmnïau yswiriant. Er mwyn rhoi cyngor cyfreithiol ichi, efallai y bydd angen i **DAS** anfon gwybodaeth y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

Wrth wneud hyn, bydd **DAS** yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Oni bai bod y gyfraith neu gorff proffesiynol yn gorchymyn hyn, ni fydd **DAS** yn datgelu data personol am **person yswiriedig** i unrhyw berson na mudiad arall heb ganiatâd ysgrifenedig.

Am unrhyw gwestiynau neu sylwadau, neu geisiadau i weld copi o'r wybodaeth sydd gan **DAS** amdano ch chi, ysgrifennwch at Reolwr Grŵp Diogelu Data ym Mhrif Swyddfa **DAS**, sydd â'i chyfeiriad isod.

Sut i wneud cwyn

Mae **DAS** bob amser yn anelu at gynnig gwasanaeth o safon uchel ichi. Os **ydych** yn meddwl bod DAS wedi eich siomi, ysgrifennwch at Adran Cysylltiadau Cwsmeriaid **DAS** yng nghyfeiriad Prif Swyddfa **DAS**:

DAS Legal Expenses Insurance Company Limited, **DAS** House, Quay Side, Temple Back, Bryste (Bristol). BS1 6NH

Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru, rhif 103274.

Neu fe gewch ffonio DAS ar 0344 139 013 neu e-bostio DAS yn: customerrelations@das.co.uk

Mae manylion am weithdrefnau delio â chwynion mewnol **DAS** ar gael ar gais.

Os **ydych** yn parhau i fod yn anfodlon ac yn fusnes bach, fe gewch **chi** gysylltu ag adran yswiriant y Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol yn:

Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol, Exchange Tower, Llundain (London). E14 9SR

Fe gewch **chi** hefyd gysylltu â nhw trwy:

Llinell gymorth cwsmeriaid

Ar agor Dydd Llun i ddydd Gwener – 8.00yb tan 8.00yh; Sadwrn 9.00yb tan 1.00yp

- ① 0800 023 4567 (yn rhad ac am ddim o ffonau symudol a llinellau tir),
- ① 0300 123 9123 (dydy galwadau ddim yn costio mwy na galwadau i rifau 01 neu 02)

✉ complaint.info@financialombudsman.org.uk

Gwefan: www.financial-ombudsman.org.uk

Dydy defnyddio'r gwasanaeth hwn ddim yn effeithio ar **eich** hawl i gymryd camau cyfreithiol.



Church Choice



Congregational

Congregational ydy enw masnachu Integra Insurance Solutions Ltd.
Swyddfa Gofrestredig: Currer House, Currer Street, Bradford BD1 5BA
Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru Rhif Cofrestredig 06760260.

Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol 495111.